

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2006)

Adroddiad Awdurdodau Lleol



Cynnwys

Pennod	Tudalen
Cyflwyniad	3
Trosolwg o'r Canlyniadau	7
Ynys Môn	17
Gwynedd	25
Conwy	33
Sir Ddinbych	41
Sir y Fflint	49
Wrecsam	57
Powys	65
Ceredigion	73
Sir Benfro	81
Sir Gaerfyrddin	89
Abertawe	97
Castell-Nedd Port Talbot	105
Pen-y-bont ar Ogwr	113
Bro Morgannwg	121
Caerdydd	129
Rhondda Cynon Taf	137
Merthyr Tudful	145
Caerffili	153
Blaenau Gwent	161
Tor-faen	169
Sir Fynwy	177
Casnewydd	185
Gwybodaeth am Ansawdd	193
Gwybodaeth Bellach	197

Cyflwyniad

Ar 30 Mehefin 2008, cafodd amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y 22 ardal awdurdod unedol yng Nghymru eu cyhoeddi am y tro cyntaf.

Mae diddordeb mawr mewn data poblogaeth ac ymfudiad ar gyfer Cymru, ac felly mae galw cryf am amcanestyniadau ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i'r rheiny sy'n cynllunio at y dyfodol, er mwyn darparu gwasanaethau a helpu ffurfio polisiau cynaliadwy, ystyried y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn darparu amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau ac ymfudiad.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiadau manwl o'r amcanestyniadau poblogaeth ar ffurf siartiau, tablau a thestun ar gyfer pob awdurdod lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o gyfres o gyhoeddiadau ar yr amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth leol. Mae Adroddiad Cryno hefyd wedi'i gyhoeddi sy'n esbonio beth yw amcanestyniadau poblogaeth, sut y gellir eu defnyddio a sut na ddylid eu defnyddio, y ffordd yr aed ati a'r dulliau cyffredinol a ddefnyddiwyd. Mae hyn yn cynnwys adran gryno sy'n cymharu ac yn cyferbynnu patrymau ar draws yr holl awdurdodau lleol. Mae taflen ganllaw fer ar yr amcanestyniadau hefyd wedi cael ei chyhoeddi, ynghyd â rhestr o gwestiynau cyffredin. Mae'r rhain ar gael ar dudalen we'r amcanestyniadau poblogaeth:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data manwl hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan StatsCymru. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar gael ar StatsCymru:

www.statswales.cymru.gov.uk

Gan mai hwn yw'n cyhoeddiad cyntaf ar amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth leol, byddem yn croesawu adborth ar ei gynnwys a'i gyflwyniad. I ddarparu adborth neu am ymholiadau cyffredinol, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

e-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 029 2082 5808

Ystadegau Demograffi, Treftadaeth a Chydraddoldeb
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Trosolwg o'r Canlyniadau

Cyfanswm y Boblogaeth

Tabl 1: Cyfanswm y Boblogaeth a'r newid mewn canran ers 2006 yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2011		2016		2021		2026		2031	
	Poblogaeth	Newid	Poblogaeth	Newid	Poblogaeth	Newid	Poblogaeth	Newid	Poblogaeth	Newid
Ynys Môn	69,700	1%	70,600	3%	71,400	4%	71,800	4%	71,800	4%
Gwynedd	121,000	2%	124,000	5%	127,100	8%	130,000	10%	132,300	12%
Conwy	114,300	3%	117,500	6%	120,900	9%	124,000	11%	126,500	14%
Sir Ddinbych	99,800	4%	103,800	8%	107,800	12%	111,600	16%	114,800	19%
Sir y Fflint	152,100	1%	154,100	3%	155,700	4%	156,700	4%	156,600	4%
Wrecsam	135,100	3%	139,200	6%	143,000	9%	146,400	12%	149,400	14%
Powys	136,100	4%	141,100	8%	146,100	11%	150,600	15%	154,300	18%
Ceredigion	79,900	4%	82,900	7%	85,800	11%	88,500	15%	90,600	17%
Sir Benfro	121,100	3%	125,100	7%	129,000	10%	132,300	13%	134,800	15%
Sir Gaerfyrddin	184,900	4%	192,100	8%	199,100	12%	205,300	15%	210,600	18%
Abertawe	233,000	3%	240,200	6%	247,800	9%	254,900	12%	261,300	15%
Castell-Nedd Port Talbot	141,500	3%	146,600	7%	151,700	11%	156,400	14%	160,700	17%
Pen-y-Bont ar Ogwr	136,800	3%	141,400	7%	146,000	10%	150,100	13%	153,700	16%
Bro Morgannwg	128,100	4%	133,300	8%	138,600	12%	143,600	16%	147,900	20%
Caerdydd	330,200	4%	345,600	9%	362,300	14%	378,700	19%	394,200	24%
Rhondda Cynon Taf	238,400	2%	243,400	4%	248,100	6%	251,900	8%	254,900	9%
Merthyr Tudful	55,500	0%	55,500	0%	55,300	0%	54,800	-1%	54,100	-3%
Caerffili	174,400	2%	177,700	4%	180,700	5%	182,800	7%	184,200	7%
Blaenau Gwent	69,700	1%	70,500	2%	71,100	3%	71,300	3%	71,200	3%
Tor-faen	92,000	1%	93,200	2%	94,100	3%	94,600	4%	94,700	4%
Sir Fynwy	90,700	3%	93,400	6%	96,100	9%	98,500	12%	100,400	14%
Casnewydd	143,500	2%	147,700	5%	152,000	8%	156,000	11%	159,400	14%

Rhwng canol 2006 a chanol 2031, yr amcanestyniad yw y bydd cynnydd ym mhoblogaeth mwyaf ym mwyaf yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Yr unig awdurdod lleol lle mae'r amcanestyniad yn nodi na fydd cynnydd yn y boblogaeth yw Merthyr Tudful, lle rhagwelir y bydd gostyngiad o oddeutu 3 y cant erbyn canol 2031.

Yn ôl yr amcanestyniadau, bydd cynnydd o fwy na 10 y cant rhwng canol 2006 a chanol 2031 ym mwyaf yr awdurdodau lleol (15). Yn ôl yr amcanestyniad, bydd y twf mwyaf yn y boblogaeth (24 y cant) yng Nghaerdydd erbyn canol 2031.

Cyfanswm y Boblogaeth yn ôl Rhyw

Yn ôl yr amcanestyniadau, bydd cynnydd yn nifer y dynion a nifer y menywod ym mwyaf yr awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng canol 2006 a chanol 2031. Yr unig awdurdodau lleol nad ydynt yn dilyn tueddiad yr amcanestyniad yw Merthyr Tudful, gyda gostyngiad yn nifer y dynion a'r menywod, a Blaenau Gwent, gyda chynnydd bach (llai nag 1 y cant) yn nifer y dynion yn unig.

Yn ôl yr amcanestyniad, bydd nifer y dynion yn cynyddu hyd at 30 y cant a nifer y menywod yn cynyddu hyd at 19 y cant ledled yr awdurdodau lleol yng Nghymru. 17 y cant yw'r cynnydd ar gyfartaledd yn nifer y dynion mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru erbyn canol 2031, ac 13 y cant yw'r cynnydd ar gyfartaledd yn nifer y menywod mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru erbyn canol 2031.

Yn 2006, roedd 48.7 y cant o boblogaeth Cymru yn ddynion. Rhwng canol 2006 a chanol 2031, yr amcanestyniad yw y bydd mwyafrif (20) yr awdurdodau lleol yn gweld cynnydd yng nghanran y dynion yn eu poblogaeth. Mae hyn yn golygu y bydd cydbwysedd bras o ddynion a menywod yn y rhan fwyaf o awdurdodau erbyn 2031, gyda 49.4 y cant o'r boblogaeth yn ddynion. Rhagwelir y bydd y bwlch rhwng canran y dynion a'r menywod yn cynyddu mewn dau awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf.

Er bod disgwyl i ganran y dynion gynyddu, dim ond tri awdurdod lleol (Caerdydd, Ceredigion ac Abertawe) fydd â mwy o ddynion na menywod erbyn canol 2031 yn ôl yr amcanestyniad.

Genedigaethau, Marwolaethau a Newid Naturiol

Tabl 2: Nifer y genedigaethau, marwolaethau a newid naturiol yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2010/11			2020/21			2030/31		
	Genedig-aethau	Marwol-aethau	Newid Naturiol	Genedig-aethau	Marwol-aethau	Newid Naturiol	Genedig-aethau	Marwol-aethau	Newid Naturiol
Ynys Môn	800	800	0	700	800	-100	600	900	-200
Gwynedd	1,400	1,200	200	1,400	1,200	200	1,400	1,400	0
Conwy	1,100	1,400	-300	1,100	1,400	-300	1,100	1,600	-500
Sir Ddinbych	1,000	1,100	-100	1,100	1,200	-100	1,000	1,300	-300
Sir y Fflint	1,700	1,400	300	1,600	1,400	200	1,500	1,700	-200
Wrecsam	1,700	1,300	400	1,600	1,300	300	1,600	1,500	100
Powys	1,300	1,500	-200	1,400	1,600	-200	1,300	1,900	-600
Ceredigion	700	700	0	700	800	-100	700	900	-200
Sir Benfro	1,300	1,400	-100	1,300	1,400	-100	1,200	1,600	-400
Sir Gaerfyrddin	2,000	2,100	-100	1,900	2,200	-200	1,900	2,500	-600
Abertawe	2,800	2,300	400	2,800	2,200	600	2,800	2,400	300
Castell-Nedd Port Talbot	1,600	1,500	100	1,600	1,500	200	1,600	1,600	0
Pen-y-Bont ar Ogwr	1,600	1,400	200	1,600	1,400	200	1,600	1,600	0
Bro Morgannwg	1,400	1,200	200	1,500	1,200	200	1,400	1,400	0
Caerdydd	4,700	2,600	2,200	5,100	2,400	2,700	4,900	2,500	2,400
Rhondda Cynon Taf	3,000	2,300	700	2,900	2,300	600	2,700	2,500	200
Merthyr Tudful	700	500	100	600	500	100	500	600	0
Caerffili	2,200	1,600	500	2,100	1,700	400	1,900	1,900	100
Blaenau Gwent	900	800	100	800	700	100	700	800	-100
Tor-faen	1,200	900	300	1,100	900	200	1,000	1,000	0
Sir Fynwy	800	900	-100	900	1,000	-100	800	1,100	-300
Casnewydd	1,900	1,300	500	1,900	1,300	600	1,800	1,400	400

❖ Genedigaethau

Dyma'r disgwyliadau ledled Cymru ar gyfer cyfraddau geni ymysg pobl o oedrannau gwahanol:

- disgwylir cynnydd ymysg menywod 20-24 oed tan 2007/08, yna bydd y gyfradd yn eithaf gwastad tan 2030/31;
- disgwylir cynnydd ymysg menywod 25-29 oed ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad, yna bydd y gyfradd yn aros yn weddol wastad tan 2030/31;
- disgwylir cynnydd ymysg menywod 30-34 a 35-39 oed tan 2010/33, yna gostyngiad bach i lefel ychydig islaw 2005/06;
- disgwylir cynnydd ymysg menywod 40+ tan 2010/11, yna gostyngiad bach, ond bydd y lefelau'n parhau'n uwch na 2005/06.

Mae'r patrymau oed penodol yn awgrymu y bydd nifer y genedigaethau yn cynyddu yn ystod blynyddoedd cyntaf cyfnod yr amcanestyniadau, cyn gostwng erbyn 2031/31.

Fodd bynnag, bydd nifer a phroffil oedran y menywod mewn unrhyw awdurdod lleol yn newid o flwyddyn i flwyddyn, felly bydd hyn yn effeithio ar nifer y genedigaethau a amcanir.

❖ **Marwolaethau**

Ar y cyfan, amcanir y bydd cyfraddau marwolaeth pob oedran yng Nghymru yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad. Fodd bynnag, os yw'r cyfraddau marwolaeth yn gostwng, mae hyn yn golygu bod pobl yn byw'n hŷn (sydd â chyfraddau marwolaeth uwch), ac felly amcanir y bydd nifer y marwolaethau'n dechrau cynyddu o oddeutu 2015/16.

❖ **Newid Naturiol**

Yn 2005/06, roedd mwy o enedigaethau na marwolaethau mewn 12 awdurdod lleol yng Nghymru.

Dyma'r amcanestyniad:

- Bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau mewn 14 awdurdod lleol yn 2010/11, a bydd cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau yng Ngheredigion ac Ynys Môn.
- Bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau yn yr 14 awdurdod lleol hyn yn 2020/21; fodd bynnag, bydd mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Ngheredigion ac Ynys Môn;
- Erbyn 2030/31, bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau mewn 6 awdurdod lleol yn unig, a bydd cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau mewn chwe awdurdod arall (Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Thor-faen).

Mae'r gostyngiad a amcanir yn nifer yr awdurdodau â mwy o enedigaethau na marwolaethau yn sgil y newidiadau a amcanir i broffil oedran a rhyw pob awdurdod lleol - er enghraifft nifer lai o fenywod yn y grwpiau oedran â chyfraddau ffrwythlondeb uchel (e.e. 25 - 34 oed) a nifer fwy o bobl yn y grwpiau oedran â chyfraddau marwolaeth uwch (e.e. 85 oed ac yn hŷn)

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb

Tabl 3: Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2005/06	2010/11	2020/21	2030/31
Ynys Môn	2.02	2.10	2.04	2.03
Gwynedd	1.90	2.00	1.92	1.92
Conwy	2.03	2.12	2.04	2.04
Sir Ddinbych	1.96	2.05	1.98	1.98
Sir y Fflint	1.86	1.94	1.88	1.87
Wrecsam	2.00	2.09	2.01	2.01
Powys	2.05	2.16	2.08	2.08
Ceredigion	1.44	1.53	1.46	1.46
Sir Benfro	2.13	2.22	2.15	2.15
Sir Gaerfyrddin	1.92	2.00	1.94	1.94
Abertawe	1.75	1.83	1.77	1.76
Castell-Nedd Port Talbot	1.91	1.99	1.93	1.93
Pen-y-Bont ar Ogwr	1.96	2.04	1.98	1.98
Bro Morgannwg	1.84	1.93	1.86	1.86
Caerdydd	1.68	1.77	1.69	1.69
Rhondda Cynon Taf	1.87	1.94	1.89	1.88
Merthyr Tudful	1.91	1.97	1.93	1.93
Caerffili	1.94	2.01	1.95	1.95
Blaenau Gwent	1.90	1.96	1.92	1.91
Tor-faen	2.05	2.13	2.07	2.07
Sir Fynwy	1.93	2.03	1.95	1.95
Casnewydd	1.97	2.05	1.99	1.98

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Mae disgwyl i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb ledled Cymru gynyddu tan 2010/11 ac yna gostwng yn araf tan 2030/31, ond bydd y lefelau ychydig yn uwch nag yn 2005/06.

Disgwylir i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb gynyddu ym mhob awdurdod lleol rhwng 2005/06 a 2010/11.

Disgwylir i'r Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb ostwng ym mhob awdurdod lleol rhwng 2010/11 a 2020/21, ond bydd y lefelau'n uwch na lefelau 2005/06.

Bydd y Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yn wastad rhwng 2020/21 a 2030/31 yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, heblaw am Ynys Môn, Sir y Fflint, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Chasnewydd, lle bydd gostyngiad bach.

Yn 2030/31, rhagwelir y bydd y Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb yn uwch o hyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru o'i gymharu â lefelau 2005/06, felly rhagwelir y bydd mwy o enedigaethau os bydd nifer a phroffil oedran menywod yn aros yr un fath.

Ffrwythlondeb lefel adnewyddu (2.08) yw'r lefel ffrwythlondeb y mae ei angen i'r boblogaeth adnewyddu'i hun yn llwyr yn yr hirdymor gyda chyfraddau marwolaeth gwastad a heb unrhyw ymfudo. Drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, amcanir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb pum awdurdod lleol yng Nghymru yn cyfateb â'r ffrwythlondeb lefel adnewyddu neu'n uwch am flwyddyn neu fwy, sef Ynys Môn, Conwy, Powys, Sir Benfro a Thor-faen.

Disgwyliad oes adeg geni

Tabl 4: Disgwyliad oes adeg geni yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	2005/06	2010/11	2020/21	2030/31
Ynys Môn	79.7	81.0	82.6	83.5
Gwynedd	79.9	81.3	82.8	83.7
Conwy	79.4	80.7	82.4	83.2
Sir Ddinbych	79.1	80.5	82.1	83.0
Sir y Fflint	79.1	80.6	82.2	83.1
Wrecsam	79.3	80.6	82.3	83.1
Powys	80.5	81.8	83.3	84.1
Ceredigion	81.4	82.4	83.8	84.6
Sir Benfro	78.9	80.4	82.0	83.0
Sir Gaerfyrddin	79.1	80.6	82.3	83.2
Abertawe	79.3	80.7	82.3	83.2
Castell-Nedd Port Talbot	78.8	80.1	81.8	82.8
Pen-y-Bont ar Ogwr	78.9	80.3	81.9	82.8
Bro Morgannwg	80.1	81.1	82.7	83.6
Caerdydd	79.0	80.5	82.1	83.0
Rhondda Cynon Taf	78.8	80.1	81.8	82.7
Merthyr Tudful	78.4	80.0	81.7	82.6
Caerffili	78.5	80.1	81.7	82.7
Blaenau Gwent	77.5	79.3	81.0	82.0
Tor-faen	80.6	81.1	82.7	83.5
Sir Fynwy	80.9	82.0	83.5	84.3
Casnewydd	78.9	80.2	81.8	82.8

Disgwyliad oes adeg geni yw'r oed y disgwylir i berson fyw os byddant yn profi cyfraddau marwolaeth eu hawdurdod lleol adeg eu geni, trwy gydol eu bywyd. Bydd disgwyliad oes unigolyn felly yn newid wrth i gyfraddau marwolaeth newid trwy gydol ei fywyd.

Ledled Cymru, rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Rhagwelir y bydd cynnydd parhaus yn y disgwyliad oes ym mhob awdurdod lleol tan 2030/31.

Ym mhob un o'r blynyddoedd dethol, yn ôl yr amcanestyniad bydd y disgwyliad oes isaf ym Mlaenau Gwent a'r uchaf yng Ngheredigion. Rhwng 2005/06 a 2030/31, rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu rhwng 77.5 a 81.4 (Blaenau Gwent a Cheredigion ill dau) i 82.0 a 84.6 (Blaenau Gwent a Cheredigion ill dau).

Er y rhagwelir mai ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chaerffili y bydd y disgwyliad oes dros y cyfnod tan 2030/31, rhagwelir mai dyma ble bydd y cynnydd mwyaf mewn disgwyliad oes (4.5 mlynedd, 4.2 mlynedd a 4.2 mlynedd yn y drefn honno).

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau a ddisgwylir yn y cyfraddau marwolaeth a fynegir yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol. Defnyddiwyd y rhain yn yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol i ddarogan newidiadau i'r cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol.

Ymfudo

Mae lefel wastad wedi cael ei rhagdybio ar gyfer ymfudo i mewn ac allan ar gyfer pob awdurdod lleol, yn seiliedig ar y mewnfudo i mewn ac allan o bob awdurdod lleol dros y pum mlynedd diwethaf.

Tabl 5: Lefelau ymfudo a ragdybir ar gyfer cyfnod yr amcanestyniad yn ôl awdurdod lleol, blynyddoedd dethol

	Cyfanswm Ymfudo			Ymfudiad Mewnol			Ymfudiad Rhyngwladol		
	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net
Ynys Môn	2,500	2,300	200	2,400	2,200	200	100	100	0
Gwynedd	5,400	4,900	400	5,000	4,700	400	300	300	100
Conwy	5,400	4,500	900	5,200	4,200	1,000	200	300	0
Sir Ddinbych	5,000	4,100	900	4,800	3,900	900	200	200	0
Sir y Fflint	5,000	4,900	100	4,800	4,600	100	200	300	0
Wrecsam	4,100	3,700	400	3,800	3,400	400	400	300	100
Powys	5,900	4,700	1,200	5,700	4,500	1,200	300	300	0
Ceredigion	5,800	5,200	600	5,400	4,900	500	400	300	200
Sir Benfro	4,500	3,600	800	4,200	3,400	800	300	200	100
Sir Gaerfyrddin	6,800	5,200	1,600	6,400	4,800	1,700	300	400	-100
Abertawe	9,100	8,200	900	7,700	7,300	400	1,400	900	500
Castell-Nedd Port Talbot	4,300	3,500	800	4,200	3,200	1,000	100	300	-200
Pen-y-Bont ar Ogwr	4,100	3,500	700	3,900	3,200	700	200	200	0
Bro Morgannwg	5,800	4,900	800	5,200	4,300	800	600	600	0
Caerdydd	19,200	18,500	600	15,200	15,700	-600	4,000	2,800	1,200
Rhondda Cynon Taf	6,300	6,000	300	5,600	5,300	300	600	700	0
Merthyr Tudful	1,200	1,400	-100	1,200	1,300	-100	100	100	0
Caerffili	4,500	4,300	100	4,300	4,000	300	200	400	-200
Blaenau Gwent	1,500	1,500	0	1,500	1,500	0	0	0	0
Tor-faen	2,300	2,300	0	2,200	2,200	0	100	100	0
Sir Fynwy	4,500	3,900	600	4,400	3,700	700	200	200	-100
Casnewydd	5,300	5,000	200	4,700	4,500	200	500	500	0

Ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, caiff ymfudo ei ystyried fel pobl yn symud i mewn ac allan o awdurdod lleol.

Caiff ymfudo i mewn neu allan o'r DU ei ddiffinio fel ymfudo mewnol a chaiff ei gofnodi ar gyfer pob symudiad adeg ymfudo.

Caiff ymfudo i wledydd tramor neu o wledydd tramor ei ystyried fel ymfudo rhyngwladol. Fodd bynnag, caiff person ei ystyried fel mewnfudwr rhyngwladol dim ond os yw'n bwriadu ymfudo am gyfnod o 12 mis neu fwy. Caiff mewnfudwyr sy'n bwriadu aros am lai na 12 mis adeg yr ymfudo eu hystyried yn fewnfudwyr tymor byr ac ni chânt eu cynnwys yn y ffigurau ymfudo. Gwneir addasiad bob blwyddyn ar gyfer pobl sy'n newid hyd eu cyfnod aros o'u bwriad adeg ymfudo (llai na 12 mis i fwy na 12 mis neu'r ffordd arall).

Rhagwelir y canlynol ym mhob blwyddyn o gyfnod yr amcanestyniad:

- Bydd mwy o bobl yn symud i fwyafrif (20) yr awdurdodau lleol yng Nghymru nag y bydd yn symud allan. Yr eithriadau yw Merthyr Tudful a Thor-faen;
- Bydd y cynnydd net mwyaf o fewnfudwyr yn digwydd yn Sir Gaerfyrddin (tua 1,600 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael bob blwyddyn).

Gan ystyried ymfudo **o fewn y DU** (ymfudo mewnol) yn unig, rhagwelir y canlynol ym mhob flwyddyn yr amcanestyniad:

- Bydd y nifer fwyaf o fewnfudwyr i mewn ac allan o'r DU yng Nghaerdydd (15,200 a 15,700 yn y drefn honno), ond bydd yn profi mewnfudo net negyddol yn y DU (tua 600 yn fwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd bob blwyddyn);
- Bydd y nifer leiaf o fewnfudwyr i mewn ac allan o'r DU ym Merthyr Tudful (1,200 a 1,300 yn y drefn honno);
- Dim ond mewn dau awdurdod (Caerdydd a Merthyr Tudful) y bydd mwy o bobl yn gadael rhannau eraill o'r DU nag sy'n dod i'r awdurdod o weddill y DU (gostyngiad net o 600 a 100 yn y drefn honno);
- Yn Sir Gaerfyrddin fydd y gwahaniaeth mwyaf rhwng nifer y bobl sy'n cyrraedd a nifer y bobl sy'n gadael (cynnydd net o 1,700 o bobl y flwyddyn)


O ran ymfudo **o wledydd tramor** (ymfudo rhyngwladol) rhagwelir y canlynol ym mhob blwyddyn o'r amcanestyniad:

- Yng Nghaerdydd fydd y nifer fwyaf o ymfudwyr rhyngwladol i mewn ac allan bob blwyddyn (4,000 a 2,800 yn y drefn honno);
- Blaenau Gwent fydd yn profi'r nifer isaf o fewnfudwyr o wledydd tramor ac i wledydd tramor (tua 50 o bobl i'r ddau gyfeiriad);
- Bydd mwy o bobl yn cyrraedd o wledydd tramor nag a fydd yn gadael bob blwyddyn mewn naw awdurdod lleol;
- yng Nghaerffili fydd y gostyngiad net mwyaf o fewnfudwyr (tua 200 yn fwy o bobl yn gadael nag yn cyrraedd bob blwyddyn);
- yng Nghaerdydd fydd y cynnydd net mwyaf o fewnfudwyr (tua 1,200 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag yn gadael bob blwyddyn).

Ynys Môn

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Ynys Môn yn cynyddu 2,900 (neu 4.3 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ar Ynys Môn amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Ar Ynys Môn, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (6.3 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (2.3 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau ar Ynys Môn, er y cafwyd lleihad bychan yn 2004/05. O'i gymharu â'r patrwm cyffredinol a welwyd ar draws awdurdodau lleol Cymru dros gyfnod yr amcanestyniad, nid yw nifer y genedigaethau ar Ynys Môn yn cynyddu mor gyflym ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad ac yna maent yn lleihau ar gyfradd gyflymach, i lefelau oddi tano lefelau presennol o 2016/17. Y rheswm am hyn yw lleihad a amcanestynnir yn nifer y menywod o fewn y grwpiau oedran â lefelau ffrwythlondeb uchel (25-34).

Ers 2002, mae nifer y marwolaethau ar Ynys Môn wedi lleihau. Disgwylir i'r tueddiad hwn ar i lawr barhau hyd 2015/16, ac yna bydd nifer y marwolaethau yn dechrau cynyddu eto. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau ar Ynys Môn. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau dros ran helaethaf cyfnod yr amcanestyniad. Er ei fod yn cyd-fynd â'r patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, mae Ynys Môn yn un o ddim ond 8 awdurdod lleol lle rhagwelir mwy o farwolaethau na genedigaethau gydol yr holl amcanestyniad. Heb ymfudiad o'r tu allan byddai poblogaeth Ynys Môn yn lleihau.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Ynys Môn wedi bod yn cynyddu. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau hyd 2028/29, er o 2019/20 ymlaen bydd yn cynyddu ar gyfradd arafach nag a welir ar hyn o bryd.


Disgwylir i ymfudiad effeithio'n sylweddol ar y cynnydd yn y boblogaeth a amcanestynnir, gan y rhagwelir y bydd tua 190 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Ynys Môn nag sy'n gadael bob blwyddyn.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Ynys Môn yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Am 5 mlynedd rhwng canol 2007 a chanol 2012 disgwylir i gyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb fod yn uwch na'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08).


Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes ar Ynys Môn wedi bod yn gymharol sefydlog, ac eithrio yn 2002/2003 pan welwyd lleihad.

Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd disgwyliad oes ar Ynys Môn yn cynyddu'n gyson, o 80.2 yn 2005/06, i 83.5 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Ynys Môn a gweddill y DU yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Ychydig yn uwch ar gyfer dynion na menywod (+130 a +100 fel ei gilydd);
- Y 7fed lefel isaf ar gyfer dynion a menywod ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Ynys Môn a'r tu allan i'r DU yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ac yn cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	12,600	12,300	12,400	12,600	12,300	11,800
Oedran gweithio	40,000	39,400	39,600	39,500	39,800	38,900
Oedran pensiwn	16,300	18,000	18,600	19,300	19,700	21,000
Cyfanswm	68,900	69,700	70,600	71,400	71,800	71,800

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Ynys Môn yn:

- Cynyddu tua 1 y cant bob 5 mlynedd hyd ganol 2021, ac ar ôl hynny bydd y boblogaeth yn cynyddu ar raddfa arafach rhwng canol 2021 a chanol 2026;
- Parhau'n gymharol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y plant (rhwng 0 a 15 oed) o fewn Ynys Môn yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2021;
- Lleihau eto o ganol 2021 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 ar Ynys Môn gydol y cyfnod ynghyd â mewnlif net o blant. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2021 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n llai na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Ynys Môn yn:

- Amrywio rhwng 39,400 a 40,000 rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau yn gymharol gyflym rhwng canol 2026 a chanol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y pensïynwyr o fewn Ynys Môn yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 11 y cant);

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensïynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	316	312	313	319	309	304
Oedran pensiwn	406	458	470	489	496	540
Cyfanswm	723	769	782	808	805	844

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensïynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth ar Ynys Môn yn cynyddu o tua 720 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 840 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth rhwng canol 2010 a chanol 2025 ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	733	-765	+228	-42	2.0	97
2007-08	746	-773	+228	-42	2.1	96
2008-09	750	-763	+228	-42	2.1	93
2009-10	752	-757	+228	-42	2.1	90
2010-11	753	-752	+228	-42	2.1	88
2011-12	752	-748	+228	-42	2.1	86
2012-13	748	-745	+228	-42	2.1	83
2013-14	742	-743	+228	-42	2.1	81
2014-15	736	-744	+228	-42	2.1	80
2015-16	732	-745	+228	-42	2.0	78
2016-17	728	-746	+228	-42	2.0	76
2017-18	723	-750	+228	-42	2.0	74
2018-19	719	-753	+228	-42	2.0	73
2019-20	715	-757	+228	-42	2.0	71
2020-21	708	-760	+228	-42	2.0	70
2021-22	699	-765	+228	-42	2.0	68
2022-23	689	-773	+228	-42	2.0	67
2023-24	681	-783	+228	-42	2.0	66
2024-25	673	-792	+228	-42	2.0	64
2025-26	665	-803	+228	-42	2.0	63
2026-27	660	-815	+228	-42	2.0	63
2027-28	655	-826	+228	-42	2.0	62
2028-29	650	-840	+228	-42	2.0	61
2029-30	646	-852	+228	-42	2.0	60
2030-31	643	-865	+228	-42	2.0	59

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau ar Ynys Môn yn cynyddu i tua 750 y flwyddyn yn 2010/11 ac yna'n lleihau dros y cyfnod o 25 mlynedd i tua 640 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 2.0. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad ac yna llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau ar Ynys Môn yn lleihau hyd 2013/14 ac yna'n cynyddu dros y cyfnod o 25 mlynedd i tua 870 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Ynys Môn yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oeddrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywiolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywiolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywiolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn cynyddu 0.5 y cant i 69,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 2,600 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywiolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 9.1 y cant i 75,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 3,400 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywiolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn gostwng 0.3 y cant i 69,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 3,200 yn is na'r prif amcanestyniad.



Gwynedd

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 14,100 (neu 11.9 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Ngwynedd, amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yng Ngwynedd, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (15.4 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (8.6 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod nifer y genedigaethau yng Ngwynedd wedi aros yr un peth yn gyffredinol, oddeutu 1,200 ac yn codi i 1,300 yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir tuedd i fyny yn ystod blynyddoedd cychwynnol yr amcanestyniadau, ac wedyn disgwylir i'r nifer o enedigaethau aros yn weddol gyson.

Ers 2003, mae nifer y marwolaethau yng Ngwynedd wedi lleihau. Dros gyfnod yr amcanestyniad, amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.




Siart 4: Newid Naturiol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Ngwynedd cyn 2005/06, ond tua'r un faint o enedigaethau a marwolaethau yn ystod 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir y bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau hyd 2029/30 a disgwylir y bydd yn cyd-fynd â'r patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Gwynedd wedi bod yn cynyddu, ac eithrio 2004/05 pryd arhosodd y boblogaeth yn weddol debyg. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar gyfradd uwch na welir ar y funud yng Ngwynedd.



Disgwylir i newid naturiol ac ymfudiad effeithio'n sylweddol ar y cynnydd yn y boblogaeth a amcanestynnir. Amcanestynnir i ymfudo mewnol net gyfrif am tua dau ran o dri o'r twf yn y boblogaeth (rhagwelir y bydd tua 420 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Wynedd nag sy'n gadael bob blwyddyn).

Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Gwynedd yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Disgwylir i Gyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Gwynedd aros o dan y lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) drwy gydol y cyfnod yr amcanestyniad.



Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.

Suart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yng Ngwynedd wedi amrywio rhwng 79 ac 80 mlwydd oed. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd disgwyliad oes yng Ngwynedd yn cynyddu'n gyson o 79.9 yn 2005/06, i 83.7 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Gwynedd a gweddill y DU yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- yn uwch ar gyfer dynion na menywod (220 a 130 fel ei gilydd).

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Gwynedd a'r tu allan i'r DU yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, yn dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ac yn cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	21,700	21,500	21,800	22,900	23,200	23,000
Oedran gweithio	69,600	70,400	72,400	73,700	75,700	75,700
Oedran pensiwn	26,900	29,100	29,800	30,500	31,100	33,500
Cyfanswm	118,300	121,000	124,000	127,100	130,000	132,300

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Gwynedd yn cynyddu o oddeutu 2 i 3 y cant bob 5 mlynedd nes canol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant (rhwng 0 a 15 oed) o fewn Gwynedd yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2021;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd mewnlif net o blant. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2021 yn deillio o gyfuniad o nifer uwch o enedigaethau na phlant yn troi'n 16 mlwydd oed a'r mewnlif net. Y mewnlif net o blant yw'r unig ffactor dros y cynnydd yn y boblogaeth rhwng canol 2021 a chanol 2026, oherwydd mae'r nifer o enedigaethau a amcanestynnir ychydig yn is na'r boblogaeth amcanestynedig o blant 15 mlwydd oed.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Gwynedd yn:

- Cynyddu rhwng bob cyfnod 5 mlynedd nes canol 2026;
- Aros yn weddol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Gwynedd yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2006 a chanol 2011, a chanol 2026 a chanol 2031 (tua 8 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	318	309	297	297	291	295
Oedran pensiwn	485	512	509	514	523	584
Cyfanswm	803	821	806	812	814	878

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yng Ngwynedd yn cynyddu o tua 700 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 750 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth rhwng canol 2010 a chanol 2025 ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,343	-1,252	+352	+70	1.9	94
2007-08	1,373	-1,266	+352	+70	2.0	93
2008-09	1,386	-1,254	+352	+70	2.0	91
2009-10	1,400	-1,245	+352	+70	2.0	88
2010-11	1,410	-1,239	+352	+70	2.0	86
2011-12	1,413	-1,238	+352	+70	2.0	84
2012-13	1,414	-1,235	+352	+70	2.0	82
2013-14	1,415	-1,232	+352	+70	2.0	80
2014-15	1,419	-1,230	+352	+70	1.9	78
2015-16	1,422	-1,227	+352	+70	1.9	76
2016-17	1,427	-1,228	+352	+70	1.9	75
2017-18	1,431	-1,231	+352	+70	1.9	73
2018-19	1,434	-1,233	+352	+70	1.9	71
2019-20	1,434	-1,236	+352	+70	1.9	70
2020-21	1,430	-1,241	+352	+70	1.9	68
2021-22	1,426	-1,246	+352	+70	1.9	67
2022-23	1,422	-1,256	+352	+70	1.9	66
2023-24	1,417	-1,267	+352	+70	1.9	65
2024-25	1,411	-1,278	+352	+70	1.9	64
2025-26	1,404	-1,290	+352	+70	1.9	62
2026-27	1,396	-1,303	+352	+70	1.9	61
2027-28	1,389	-1,320	+352	+70	1.9	61
2028-29	1,382	-1,337	+352	+70	1.9	60
2029-30	1,375	-1,357	+352	+70	1.9	59
2030-31	1,370	-1,375	+352	+70	1.9	59

Pwyntiau Allweddol:

- Disgwylir i'r nifer o enedigaethau gynyddu i oddeutu 1,430 yn 2019/20 ac yna lleihau dros weddill cyfnod yr amcanestyniad i 1,370 yn 2030/31. Disgwylir i Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ddilyn patrwm tebyg dros gyfnod yr amcanestyniad - un o'r unig awdurdodau lleol i nodi newid o'r fath. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd y nifer o fenywod o oedran cario plant (15-49) yng Ngwynedd yn aros yn weddol gyson dros gyfnod yr amcanestyniad.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Ngwynedd yn lleihau hyd 2015/16 ac yna'n cynyddu eto i 1,380 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Gwynedd, yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.

Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oeddrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 3.0 y cant i 122,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 10,500 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 17.0 y cant i 138,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,000 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.1 y cant i 127,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 5,700 yn llai na'r prif amcanestyniad.



Conwy

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Conwy yn cynyddu 15,300 (neu 13.7 y cant) erbyn 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghonwy amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yng Nghonwy, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (16.4 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (11.2 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yng Nghonwy. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad ac yna bydd nifer y genedigaethau yn parhau'n gymharol gyson.


O'i gymharu â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru dros gyfnod yr amcanestyniad, nid yw nifer y genedigaethau yng Nghonwy yn cynyddu mor gyflym ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad, fodd bynnag nid amcanestynnir ychwaith y gostyngiad a amcanestynnir yn nifer y genedigaethau o 2015/16 ymlaen ar draws Cymru. Y rheswm am hyn yw gostyngiad a amcanestynnir yn nifer y menywod o fewn y grwpiau oedran â lefelau ffrwythlondeb uchel (25-34) yn ystod hanner cyntaf yr amcanestyniad ac yna cynnydd yn y grŵp hwn yn ail hanner yr amcanestyniad.



Ers 2002, mae tuedd ar i lawr o ran nifer y marwolaethau yng Nghonwy. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Nghonwy. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad. Er y disgwylir i Gonwy ddilyn y patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, mae ymysg dim ond 8 awdurdod lleol lle rhagwelir mwy o farwolaethau na genedigaethau ar draws yr amcanestyniad cyfan. Heb ymfudiad o'r tu allan byddai poblogaeth Conwy yn lleihau.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Conwy wedi amrywio (gan gynyddu a lleihau). Amcanestynnir y bydd poblogaeth Conwy yn cynyddu dros holl gyfnod yr amcanestyniad.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o ymfudiad, gyda thua 940 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Gonwy bob blwyddyn nag yn gadael.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Conwy yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Am 7 mlynedd rhwng canol 2007 a chanol 2014 disgwylir i gyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb fod uwchlaw'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08).

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yng Nghonwy wedi bod yn cynyddu ers canol 2002. Amcanestynnir y bydd y tuedd hwn am i fyny yn parhau dros gyfnod yr amcanestyniad, o 79.4 yn 2005/06 i 83.2 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Conwy yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Ychydig yn uwch ar gyfer dynion na menywod (510 a 480 fel ei gilydd);
- Y 3ydd lefel uchaf ar gyfer dynion a'r 4ydd uchaf ar gyfer menywod ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad net rhyngwladol ar gyfer Conwy yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	19,600	19,400	19,300	19,800	19,900	19,900
Oedran gweithio	61,700	62,800	65,100	66,700	68,300	67,400
Oedran pensiwn	29,900	32,200	33,100	34,300	35,700	39,300
Cyfanswm	111,300	114,300	117,500	120,900	124,000	126,500

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Conwy yn cynyddu ychydig oddi tano 3 y cant bob 5 mlynedd hyd ganol 2026, ac ar ôl hynny bydd y boblogaeth yn cynyddu'n arafach hyd ganol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Conwy yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2016;
- Cynyddu rhwng canol 2016 a chanol 2026;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 yng Nghonwy ynghyd â mewnlif net o blant bob blwyddyn. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2026 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n llai na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Conwy yn:

- Cynyddu rhwng pob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd hyd ganol 2026;
BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,242	-1,438	+1,193	+2	2.1	89
2007-08	1,262	-1,467	+1,193	+2	2.1	88
2008-09	1,267	-1,467	+1,193	+2	2.1	86
2009-10	1,275	-1,464	+1,193	+2	2.2	84
2010-11	1,283	-1,470	+1,193	+2	2.2	81
2011-12	1,286	-1,475	+1,193	+2	2.1	79
2012-13	1,289	-1,482	+1,193	+2	2.1	78
2013-14	1,293	-1,493	+1,193	+2	2.1	76
2014-15	1,301	-1,499	+1,193	+2	2.1	74
2015-16	1,311	-1,508	+1,193	+2	2.1	72
2016-17	1,322	-1,516	+1,193	+2	2.1	71
2017-18	1,333	-1,526	+1,193	+2	2.1	69
2018-19	1,342	-1,539	+1,193	+2	2.1	68
2019-20	1,349	-1,552	+1,193	+2	2.1	66
2020-21	1,351	-1,568	+1,193	+2	2.1	65
2021-22	1,350	-1,585	+1,193	+2	2.1	63
2022-23	1,347	-1,606	+1,193	+2	2.1	62
2023-24	1,343	-1,629	+1,193	+2	2.1	61
2024-25	1,337	-1,655	+1,193	+2	2.1	60
2025-26	1,331	-1,681	+1,193	+2	2.1	59
2026-27	1,324	-1,710	+1,193	+2	2.1	58
2027-28	1,317	-1,742	+1,193	+2	2.1	57
2028-29	1,310	-1,777	+1,193	+2	2.1	57
2029-30	1,303	-1,814	+1,193	+2	2.1	56
2030-31	1,298	-1,852	+1,193	+2	2.1	55

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau ym Mhowys yn cynyddu hyd tua 1,350 erbyn 2020/21 gan yna leihau dros weddill y cyfnod i 1,300 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 2.1. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) gydol cyfnod yr amcanestyniad, ond y bydd cynnydd yn nifer y menywod o fewn y grwpiau oedran â lefelau ffrwythlondeb uchel (25-34).
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau ym Mhowys yn lleihau hyd 2009/10 ac yna'n cynyddu eto i 1,850 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Caerffili yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Powys yn lleihau 1.1 y cant i 130,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 24,600 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 22.6 y cant i 161,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,500 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 13.0 y cant i 148,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,100 yn is na'r prif amcanestyniad.



Ceredigion

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Ceredigion yn cynyddu 13,500 (neu 17.5 y cant) erbyn 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Ngheredigion amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth yn ystod hanner cyntaf cyfnod yr amcanestyniad ac yna mwy o ddynion na menywod yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad.


Yng Ngheredigion, amcanestynnir y bydd y boblogaeth o ddynion yn tyfu mwy na'r boblogaeth o fenywod (21 y cant ac 14 y cant fel ei gilydd).



Ceredigion yw un o 3 awdurdod lleol yng Nghymru lle amcanestynnir y bydd dros 50 y cant o'r boblogaeth yn ddynion erbyn canol 2031.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod nifer y genedigaethau yng Ngheredigion wedi amrywio oddeutu 600 y flwyddyn. O'i gymharu â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru dros gyfnod yr amcanestyniad, nid yw nifer y genedigaethau yng Ngheredigion yn cynyddu mor gyflym ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Serch hynny, nid amcanestynnir y bydd y lleihad a amcanestynnir yn nifer y genedigaethau o 2015/16 ymlaen ar draws Cymru yn digwydd yng Ngheredigion. Y rheswm am hyn yw'r cynnydd a amcanestynnir yn nifer y menywod yn y grwpiau â lefelau ffrwythlondeb uchel (25-34).




Cyn 2004/05 roedd nifer y marwolaethau yng Ngheredigion yn cynyddu, fodd bynnag gwelwyd lleihad yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Ngheredigion yn parhau'n gymharol sefydlog, sef tua 740 y flwyddyn hyd 2015/16. Disgwylir i'r nifer ddechrau cynyddu

unwaith eto ar ôl hynny. Nid yw hyn yn dilyn y patrwm cyffredinol o leihad mewn nifer marwolaethau hyd 2015/16 y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Ngheredigion. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad. Er y disgwylir i Geredigion ddilyn y patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, mae'n un o ddim ond 8 awdurdod lleol lle disgwylir gweld mwy o farwolaethau na genedigaethau gydol cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad o'r tu allan byddai poblogaeth Ceredigion yn lleihau.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Ceredigion wedi bod yn cynyddu. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o ymfudiad. Rhagwelir y bydd tua 630 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Geredigion bob blwyddyn nag a fydd yn gadael.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Ceredigion yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Ceredigion yw'r cyfanswm isaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru, yn hanesyddol a gydol cyfnod yr amcanestyniad, ac amcanestynnir y bydd yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yng Ngheredigion wedi lleihau rhwng 2001/02 a 2003/04, ac yna dechreuodd gynyddu eto. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu o 81.4 yn 2005/06, i 84.6 yn 2030/31. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i Geredigion fod â'r disgwyliad oes uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Ceredigion yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Uwch ar gyfer menywod na dynion (mewnlfif net o 260 a 200 fel ei gilydd);

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad net rhyngwladol ar gyfer Ceredigion yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Tua'r un rhifau ar gyfer dynion a menywod (mewnlfif o tua 90 bob blwyddyn);

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	12,100	11,600	11,700	12,200	12,500	12,400
Oedran gweithio	47,500	48,600	50,200	51,400	52,900	53,100
Oedran pensiwn	17,600	19,700	21,000	22,200	23,100	25,200
Cyfanswm	77,200	79,900	82,900	85,800	88,500	90,600

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Ceredigion yn cynyddu rhwng 3 a 4 y cant bob 5 mlynedd hyd ganol 2026, ac ar ôl hynny bydd y boblogaeth yn cynyddu ar gyfradd ychydig yn arafach hyd ganol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Ceredigion yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2026;
- Lleihau eto o ganol 2026 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 ynghyd â mewnlif net o blant bob blwyddyn. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2021 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n llai na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Ceredigion yn:

- Cynyddu rhwng pob un o'r cyfnodau 5 mlynedd hyd ganol 2026;
- Parhau'n gymharol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y pensïynwyr o fewn Ceredigion yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 12 y cant) a chanol 2026 a chanol 2031 (tua 9 y cant);

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensïynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	255	238	233	237	236	233
Oedran pensiwn	371	406	419	432	437	473
Cyfanswm	626	644	652	668	673	706

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensïynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensïynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) o fewn Ceredigion yn cynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad o tua 630 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 710 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Mae'r cynnydd hwn yn deillio'n bennaf o'r cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹, gan yr amcanestynnir y bydd nifer y plant fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio yn lleihau dros gyfnod yr amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	614	-722	+456	+173	1.5	81
2007-08	641	-735	+456	+173	1.5	80
2008-09	660	-734	+456	+173	1.5	78
2009-10	675	-733	+456	+173	1.5	76
2010-11	686	-735	+456	+173	1.5	74
2011-12	693	-736	+456	+173	1.5	72
2012-13	695	-738	+456	+173	1.5	70
2013-14	696	-741	+456	+173	1.5	69
2014-15	698	-742	+456	+173	1.5	67
2015-16	704	-743	+456	+173	1.5	65
2016-17	709	-745	+456	+173	1.5	64
2017-18	713	-750	+456	+173	1.5	62
2018-19	713	-755	+456	+173	1.5	61
2019-20	712	-760	+456	+173	1.5	60
2020-21	711	-767	+456	+173	1.5	59
2021-22	709	-775	+456	+173	1.5	57
2022-23	705	-784	+456	+173	1.5	56
2023-24	699	-794	+456	+173	1.5	55
2024-25	694	-806	+456	+173	1.5	54
2025-26	688	-817	+456	+173	1.5	53
2026-27	683	-831	+456	+173	1.5	53
2027-28	677	-847	+456	+173	1.5	52
2028-29	671	-863	+456	+173	1.5	51
2029-30	664	-879	+456	+173	1.5	51
2030-31	657	-896	+456	+173	1.5	50

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yng Ngheredigion yn cynyddu i tua 710 y flwyddyn yn 2018/19 ac yna'n lleihau dros weddill y cyfnod i 660 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 1.5. Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yn deillio o effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad ac yna llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Ngheredigion yn parhau'n gymharol gyson, sef tua 740 y flwyddyn hyd 2015/16 ac yna'n cynyddu eto i 900 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Ceredigion yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng 1.2 y cant i 76,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 14,400 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 21.8 y cant i 94,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 3,300 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 13.4 y cant i 88,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 3,100 yn is na'r prif amcanestyniad.



Sir Benfro

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Benfro yn cynyddu 17,600 (neu 15.0 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir Benfro, amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yn Sir Benfro, amcanestynnir y bydd cynnydd mwy yn y boblogaeth o ddynion (16.9 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (13.2 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yn Sir Benfro. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir Benfro yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r nifer o farwolaethau wedi amrywio o 1,350 i 1,420 yn Sir Benfro. Disgwylir i'r nifer o farwolaethau leihau ychydig hyd 2012/13 ac yna cynyddu hyd 2030/31, yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol a ddisgwylir ar draws awdurdodau lleol Cymru.




Siart 4: Newid Naturiol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yn Sir Benfro. Disgwylir i hyn barhau drwy gyfnod yr amcanestyniad. Er ei fod yn cyd-fynd â'r patrwm a ddisgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, mae Sir Benfro yn un o 8 awdurdod lleol ble mae disgwyl mwy o farwolaethau na genedigaethau drwy gyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudo mewnol, byddai poblogaeth Sir Benfro yn lleihau.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Sir Benfro wedi bod yn cynyddu. Arafodd y gyfradd gynyddu bob blwyddyn rhwng 2002/03 a 2004/05, ond cododd unwaith yn rhagor yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad, amcanestynnir i boblogaeth Sir Benfro gynyddu bob blwyddyn, ac ar gyfradd uwch nag yn 2005/06.




Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Sir Benfro yn cyd-fynd â'r un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru.


Sir Benfro yw'r unig awdurdod lleol ble amcanestynnir i Gyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb fod yn uwch na'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) drwy gydol y cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes wedi amrywio rhwng 78 mlwydd oed a 79 mlwydd oed yn Sir Benfro. Disgwylir i'r tuedd yma barhau i gynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad, o 78.9 yn 2005/06 i 83.0 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Sir Benfro a gweddill y DU yn:

- Bositif, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Ychydig yn uwch ar gyfer menywod na dynion (tua 410 a 380 fel ei gilydd);
- Y 6ed uchaf ar gyfer dynion a'r 7fed uchaf ar gyfer menywod o holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Sir Benfro a'r tu allan i'r DU yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod.

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	22,700	22,100	22,200	23,000	23,000	22,600
Oedran gweithio	66,600	68,100	70,500	72,100	74,200	73,700
Oedran pensiwn	28,000	30,900	32,400	33,800	35,100	38,500
Cyfanswm	117,300	121,100	125,100	129,000	132,300	134,800

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Benfro yn cynyddu o dros 3 y cant bob 5 mlynedd hyd canol 2021, ond cynyddu ar gyfradd arafach wedi hynny hyd canol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Sir Benfro yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Aros yn weddol gyson rhwng canol 2011 a chanol 2016;
- Cynyddu rhwng canol 2016 a chanol 2021;
- Aros yn gyson rhwng canol 2021 a chanol 2026;
- Lleihau rhwng canol 2021 a chanol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 ynghyd â mewnlif net o blant bob blwyddyn. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2016 a chanol 2021 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n llai na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Sir Benfro yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensïynwyr o fewn Sir Benfro yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2006 a chanol 2011, a chanol 2026 a chanol 2031 (tua 10 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensïynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	340	325	316	319	310	307
Oedran pensiwn	420	453	460	469	473	522
Cyfanswm	760	779	775	788	783	829

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensïynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio .

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yn Sir Benfro yn amrywio rhwng 760 a 790 (fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio) hyd ganol 2026, ac yna cynyddu'n sydyn i tua 830 (fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio) yn 2030/31. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹, gan yr amcanestynnir i'r nifer y plant bob 1,000 o bobl o oedran gweithio leihau dros y rhan fwyaf o'r cyfnod amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,255	-1,380	+785	+65	2.1	102
2007-08	1,281	-1,395	+785	+65	2.2	102
2008-09	1,296	-1,385	+785	+65	2.2	99
2009-10	1,306	-1,375	+785	+65	2.2	96
2010-11	1,313	-1,367	+785	+65	2.2	93
2011-12	1,318	-1,364	+785	+65	2.2	91
2012-13	1,320	-1,363	+785	+65	2.2	88
2013-14	1,317	-1,364	+785	+65	2.2	86
2014-15	1,315	-1,366	+785	+65	2.2	84
2015-16	1,317	-1,367	+785	+65	2.2	82
2016-17	1,319	-1,372	+785	+65	2.2	80
2017-18	1,317	-1,380	+785	+65	2.2	79
2018-19	1,315	-1,389	+785	+65	2.2	77
2019-20	1,313	-1,403	+785	+65	2.2	75
2020-21	1,308	-1,414	+785	+65	2.1	74
2021-22	1,298	-1,430	+785	+65	2.1	72
2022-23	1,288	-1,446	+785	+65	2.1	71
2023-24	1,279	-1,466	+785	+65	2.1	70
2024-25	1,271	-1,486	+785	+65	2.1	69
2025-26	1,263	-1,507	+785	+65	2.1	67
2026-27	1,256	-1,530	+785	+65	2.1	66
2027-28	1,249	-1,552	+785	+65	2.1	65
2028-29	1,243	-1,579	+785	+65	2.1	65
2029-30	1,238	-1,604	+785	+65	2.1	64
2030-31	1,235	-1,629	+785	+65	2.1	63

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir Benfro yn cynyddu i tua 1,320 yn 2016/17 ac yna'n lleihau dros weddill y cyfnod i 1,240 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn aros yn gyson. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd llai o fenywod o oedran cario plant yn Sir Benfro yn y dyfodol nag sydd yn bresennol.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn Sir Benfro yn lleihau hyd 2012/13 ac yna'n codi eto i tua 1,630 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Sir Benfro, yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.

Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oeddrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Sir Benfro yn cynyddu 1.6 y cant i 119,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 15,700 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 20.2 y cant i 141,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,100 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 10.0 y cant i 129,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 5,800 yn llai na'r prif amcanestyniad.



Sir Gaerfyrddin

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn cynyddu 32,500 (neu 18.3 y cant) erbyn 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir Gaerfyrddin amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yn Sir Gaerfyrddin, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (20 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (17 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yn Sir Gaerfyrddin. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad ac yna bydd nifer y genedigaethau yn parhau'n gymharol gyson.


O'i gymharu â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru dros gyfnod yr amcanestyniad, nid yw nifer y genedigaethau yn cynyddu mor gyflym ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad, fodd bynnag nid amcanestynnir ychwaith y lleihad a amcanestynnir yn nifer y genedigaethau o 2015/16 ymlaen ar draws Cymru. Y rheswm am hyn yw cynnydd a amcanestynnir yn nifer y menywod o fewn y grwpiau oedran â lefelau ffrwythlondeb uchel (25-34).



Ers 2003, mae nifer y marwolaethau wedi lleihau. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i lawr barhau hyd 2015/16, ac ar ôl hynny bydd nifer y marwolaethau yn dechrau cynyddu eto. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yn Sir Gaerfyrddin. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad. Er bod Sir Gaerfyrddin yn dilyn y patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, mae'n un o ddim ond 8 awdurdod lleol lle rhagwelir mwy o farwolaethau na genedigaethau gydol cyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudiad o'r tu allan byddai poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn lleihau.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cynyddu. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau, ac amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu ar gyfradd gyflymach nag a welwyd yn 2005/06 gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o ymfudiad, gyda thua 1,600 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Sir Gaerfyrddin nag sy'n gadael bob blwyddyn.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Sir Gaerfyrddin yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Sir Gaerfyrddin yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cynyddu'n araf. Amcanestynnir y bydd y tuedd hwn ar i fyny yn parhau gydol cyfnod yr amcanestyniad, o 79.1 yn 2005/06 i 83.2 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Y mewnlif net uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru;
- Tua'r un lefelau ar gyfer dynion a menywod (mewnlif o tua 820 a 830 fel ei gilydd);

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad net rhyngwladol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, gan ddangos bod mwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd;
- Y 3ydd isaf ar gyfer dynion a'r 4ydd isaf ar gyfer menywod ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	33,100	33,200	34,000	35,000	35,000	34,700
Oedran gweithio	103,800	106,100	110,200	113,500	117,400	117,800
Oedran pensiwn	41,200	45,600	47,900	50,600	52,900	58,100
Cyfanswm	178,000	184,900	192,100	199,100	205,300	210,600

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn cynyddu bob 5 mlynedd hyd ganol 2031, er y bydd cyfradd y cynnydd yn arafu dros gyfnod yr amcanestyniad, o 3.9 y cant rhwng canol 2006 a chanol 2011 i 2.5 y cant rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Sir Gaerfyrddin yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau rhwng canol 2026 a chanol 2031;

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 yn Sir Gaerfyrddin gydol y cyfnod ynghyd â mewnlif net o blant. Mae'r lleihad a welir rhwng canol 2026 a chanol 2031 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n fwy na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Sir Gaerfyrddin yn:

- Cynyddu rhwng pob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd hyd ganol 2026;
- Parhau'n gymharol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Sir Gaerfyrddin yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 11 y cant) a chanol 2026 a chanol 2031 (tua 10 y cant);

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	319	313	308	308	298	294
Oedran pensiwn	397	430	434	445	450	494
Cyfanswm	716	742	743	753	748	788

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) o fewn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad o tua 720 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 790 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Mae'r cynnydd hwn yn deillio o'r cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth rhwng canol 2010 a chanol 2025 ei ystyried¹, gan yr amcanestynnir y bydd nifer y plant fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio yn lleihau dros gyfnod yr amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,871	-2,127	+1,651	-73	1.9	105
2007-08	1,914	-2,149	+1,651	-73	2.0	104
2008-09	1,935	-2,133	+1,651	-73	2.0	101
2009-10	1,951	-2,120	+1,651	-73	2.0	98
2010-11	1,961	-2,110	+1,651	-73	2.0	95
2011-12	1,963	-2,103	+1,651	-73	2.0	93
2012-13	1,961	-2,100	+1,651	-73	2.0	91
2013-14	1,958	-2,105	+1,651	-73	2.0	89
2014-15	1,956	-2,103	+1,651	-73	2.0	87
2015-16	1,955	-2,103	+1,651	-73	1.9	85
2016-17	1,955	-2,108	+1,651	-73	1.9	83
2017-18	1,952	-2,114	+1,651	-73	1.9	81
2018-19	1,948	-2,127	+1,651	-73	1.9	79
2019-20	1,941	-2,141	+1,651	-73	1.9	77
2020-21	1,933	-2,157	+1,651	-73	1.9	76
2021-22	1,925	-2,177	+1,651	-73	1.9	74
2022-23	1,916	-2,203	+1,651	-73	1.9	73
2023-24	1,907	-2,231	+1,651	-73	1.9	72
2024-25	1,899	-2,266	+1,651	-73	1.9	71
2025-26	1,892	-2,298	+1,651	-73	1.9	69
2026-27	1,886	-2,334	+1,651	-73	1.9	68
2027-28	1,883	-2,374	+1,651	-73	1.9	68
2028-29	1,881	-2,415	+1,651	-73	1.9	67
2029-30	1,881	-2,459	+1,651	-73	1.9	66
2030-31	1,883	-2,504	+1,651	-73	1.9	65

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu i tua 1,960 yn 2011/12 ac yna'n lleihau dros weddill y cyfnod i 1,880 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 1.9. Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yn deillio o effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad ac yna llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin yn lleihau hyd 2015/16 ac yna'n cynyddu eto i 2,500 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedranus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn gostwng 1.0 y cant i 176,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 34,000 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 23.4 y cant i 220,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 9,100 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 13.5 y cant i 202,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 8,600 yn is na'r prif amcanestyniad.



Abertawe

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Abertawe yn cynyddu 34,300 (neu 15.1 y cant) erbyn 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Abertawe amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth yn ystod hanner cyntaf cyfnod yr amcanestyniad, ac yna mwy o ddynion na menywod yn ystod ail hanner cyfnod yr amcanestyniad.

Yn Abertawe, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (19 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (12 y cant).




Mae Abertawe yn un o 3 awdurdod lleol yng Nghymru lle amcanestynnir y bydd mwy na 50 y cant o'r boblogaeth yn ddynion erbyn canol 2031.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yn Abertawe. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau yn ystod blynyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i enedigaethau yn Abertawe ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Ers 2002, mae nifer y marwolaethau yn Abertawe wedi dangos tuedd ar i lawr. Disgwylir i'r duedd yma barhau hyd 2018/19, cyn i nifer y marwolaethau gynyddu eto. Mae hyn yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau hyd ganol 2005. Yn 2005/06, bu mwy o enedigaethau na marwolaethau yn Abertawe. Disgwylir y bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau gydol cyfnod yr amcanestyniad, gan ddilyn y patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Abertawe wedi cynyddu. Disgwylir i boblogaeth Abertawe barhau i gynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad, ac y bydd yn cynyddu ar gyfradd gyflymach nag a welir ar hyn o bryd.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio o newid naturiol ac ymfudiad. Amcanestynnir y bydd mewnfudiad net yn gyfrifol am tua dwy ran o dair o'r cynnydd yn y boblogaeth (tua 900 yn fwy o bobl yn cyrraedd Abertawe nag sy'n gadael bob blwyddyn).



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Abertawe yn dilyn y patrwm cyffredinol ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Abertawe yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yn Abertawe wedi bod yn cynyddu ers canol 2002. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd disgwyliad oes yn parhau i gynyddu o 79.3 yn 2005/06, i 83.2 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Abertawe yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Yn uwch ar gyfer dynion na menywod (190 a 160 fel ei gilydd)

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad rhyngwladol net ar gyfer Abertawe yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Y mewnlif net ail uchaf o holl awdurdodau Cymru
- Yn uwch ar gyfer dynion na menywod (mewnlif o 320 a 230 fel ei gilydd)

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	40,500	40,800	42,900	45,200	46,100	45,800
Oedran gweithio	138,800	142,000	147,100	151,700	156,500	159,100
Oedran pensiwn	47,900	50,200	50,200	50,900	52,300	56,400
Cyfanswm	227,100	233,000	240,200	247,800	254,900	261,300

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Abertawe yn cynyddu rhwng 2 a 3 y cant bob 5 mlynedd hyd 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Abertawe yn:

- Cynyddu bob 5 mlynedd hyd ganol 2026;
- Lleihau rhywfaint o ganol 2026 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, , rhagwelir mewnlif net o blant. Rhwng canol 2011 a chanol 2026, disgwylir y bydd gan Abertawe nifer uwch o enedigaethau na phlant yn troi'n 16. Y tu allan i'r cyfnod hwn, disgwylir y gwrthwyneb. Mae'r gostyngiad a welir rhwng canol 2026 a chanol 2031 yn deillio o'r ffaith fod mewnlif net plant yn llai na'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant yn troi'n 16.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Abertawe yn cynyddu rhwng bob cyfnod 5 mlynedd hyd ganol 2031. Disgwylir y cynnydd mwyaf rhwng canol 2011 a chanol 2016.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Abertawe yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Parhau yn weddol gyson rhwng canol 2011 a chanol 2016;
- Cynyddu rhwng canol 2016 a chanol 2031;

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	291	288	291	298	294	288
Oedran pensiwn	345	353	341	335	334	355
Cyfanswm	636	641	632	633	628	642

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr¹ fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yn Abertawe yn amrywio rhwng tua 630 a 640 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio. Mae hyn o ganlyniad i amrywiaethau yn nifer y plant ac yn nifer y bobl o oed pensiwn (fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio) dros gyfnod yr amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	2,556	-2,427	+351	+544	1.8	100
2007-08	2,635	-2,437	+351	+544	1.8	99
2008-09	2,685	-2,399	+351	+544	1.8	96
2009-10	2,732	-2,368	+351	+544	1.8	93
2010-11	2,773	-2,342	+351	+544	1.8	91
2011-12	2,802	-2,321	+351	+544	1.8	88
2012-13	2,820	-2,300	+351	+544	1.8	86
2013-14	2,834	-2,282	+351	+544	1.8	84
2014-15	2,846	-2,264	+351	+544	1.8	82
2015-16	2,858	-2,250	+351	+544	1.8	80
2016-17	2,866	-2,240	+351	+544	1.8	79
2017-18	2,868	-2,235	+351	+544	1.8	77
2018-19	2,866	-2,234	+351	+544	1.8	75
2019-20	2,857	-2,234	+351	+544	1.8	74
2020-21	2,842	-2,239	+351	+544	1.8	72
2021-22	2,825	-2,244	+351	+544	1.8	71
2022-23	2,808	-2,255	+351	+544	1.8	69
2023-24	2,792	-2,265	+351	+544	1.8	68
2024-25	2,780	-2,280	+351	+544	1.8	67
2025-26	2,768	-2,296	+351	+544	1.8	66
2026-27	2,760	-2,313	+351	+544	1.8	65
2027-28	2,755	-2,335	+351	+544	1.8	64
2028-29	2,753	-2,358	+351	+544	1.8	63
2029-30	2,754	-2,384	+351	+544	1.8	62
2030-31	2,759	-2,409	+351	+544	1.8	62

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Abertawe yn cynyddu hyd tua 2,870 erbyn 2017/18 gan yna leihau dros weddill y cyfnod i 2,760 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 1.8. Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yn deillio o'r newid yn y cyfraddau ffrwythlondeb penodol i oedran a'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol. Disgwylir amrywiaethau yn y nifer o fenywod o oedran cario plant yn Abertawe yn ystod cyfnod yr amcanestyniad.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn Abertawe yn lleihau hyd 2018/19 ac yna'n cynyddu eto i 2,400 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Caerffili yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Abertawe yn cynyddu 1.9 y cant i 231,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 29,900 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 20.2 y cant i 273,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 11,500 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 10.3 y cant i 250,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 10,900 yn is na'r prif amcanestyniad.



Castell-nedd Port Talbot

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu 23,600 (neu 17.2 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yng Nghastell-nedd Port Talbot, amcanestynnir y bydd cynnydd mwy yn y boblogaeth o ddywion (18.0 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (16.6 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Ers canol 2002 mae nifer y marwolaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi lleihau. Disgwylir i'r tuedd hwn barhau hyd 2016/17, ond wedi hynny disgwylir i'r nifer o farwolaethau godi eto. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol a ddisgwylir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot. O 2007/08 ymlaen, disgwylir mwy o enedigaethau na marwolaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Disgwylir i hyn gyd-fynd â'r patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn cynyddu. Disgwylir i'r tuedd hwn barhau dros holl gyfnod yr amcanestyniad, a bydd disgwyl i'r twf gynyddu ar gyfradd uwch nag yn bresennol.


Disgwylir i ymfudiad effeithio'n sylweddol ar y cynnydd yn y boblogaeth a amcanestynnir, gyda thua 830 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Gastell-nedd Port Talbot nag sy'n gadael bob blwyddyn.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Castell-nedd Port Talbot yn cyd-fynd â'r un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Disgwylir i Gyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Castell-nedd Port Talbot aros o dan y lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) drwy gydol y cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes wedi bod yn cynyddu yng Nghastell-nedd Port Talbot. Disgwylir i'r tuedd yma barhau dros gyfnod yr amcanestyniad, o 78.8 yn 2005/06 i 82.8 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Castell-Nedd Port Talbot a gweddill y DU yn:

- Bositif, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod (mewnlfif net o tua 500);
- Y 3ydd uchaf ar gyfer menywod a'r 4ydd uchaf ar gyfer dynion o holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Castell-Nedd Port Talbot a'r tu allan i'r DU yn:

- Negatif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod.

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	25,500	25,700	26,900	28,300	28,600	28,500
Oedran gweithio	82,400	84,700	87,600	89,900	92,500	92,900
Oedran pensiwn	29,200	31,100	32,100	33,500	35,300	39,200
Cyfanswm	137,100	141,500	146,600	151,700	156,400	160,700

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Castell-Nedd Port Talbot yn cynyddu o dros 3 y cant bob 5 mlynedd hyd ganol 2026, ond cynyddu ar gyfradd arafach wedi hynny hyd ganol 2031.

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Castell-Nedd Port Talbot yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Aros yn weddol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, ar wahan i ganol 2016 hyd ganol 2021, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 ynghyd â mewnlif net o blant bob blwyddyn. Mae'r cynnydd yn nifer y plant yn yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n llai na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Castell-Nedd Port Talbot yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Aros yn weddol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensïynwyr o fewn Castell-Nedd Port Talbot yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 11 y cant), a chanol 2006 a chanol 2011 (tua 7 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensïynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	309	304	307	315	309	307
Oedran pensiwn	354	368	366	373	382	422
Cyfanswm	663	672	674	688	692	729

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensïynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio .

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynyddu o tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 730 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,519	-1,526	+984	-153	1.9	104
2007-08	1,560	-1,537	+984	-153	2.0	103
2008-09	1,584	-1,519	+984	-153	2.0	100
2009-10	1,606	-1,504	+984	-153	2.0	97
2010-11	1,625	-1,490	+984	-153	2.0	94
2011-12	1,635	-1,478	+984	-153	2.0	92
2012-13	1,641	-1,472	+984	-153	2.0	89
2013-14	1,644	-1,464	+984	-153	2.0	87
2014-15	1,648	-1,458	+984	-153	1.9	85
2015-16	1,652	-1,451	+984	-153	1.9	83
2016-17	1,654	-1,446	+984	-153	1.9	81
2017-18	1,652	-1,447	+984	-153	1.9	79
2018-19	1,646	-1,450	+984	-153	1.9	77
2019-20	1,637	-1,454	+984	-153	1.9	75
2020-21	1,628	-1,462	+984	-153	1.9	74
2021-22	1,620	-1,470	+984	-153	1.9	72
2022-23	1,612	-1,483	+984	-153	1.9	71
2023-24	1,606	-1,496	+984	-153	1.9	70
2024-25	1,604	-1,511	+984	-153	1.9	69
2025-26	1,603	-1,530	+984	-153	1.9	67
2026-27	1,605	-1,547	+984	-153	1.9	66
2027-28	1,609	-1,568	+984	-153	1.9	65
2028-29	1,616	-1,590	+984	-153	1.9	64
2029-30	1,626	-1,611	+984	-153	1.9	63
2030-31	1,637	-1,637	+984	-153	1.9	63

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynyddu i tua 1,650 yn 2016/17 ac yna'n aros yn gyson hyd 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn dilyn yr un patrwm. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol. Er bod newidiadau mewn cyfraddau ffrwythlondeb oed-benodol wedi eu hamcanestyn, amcanestynnir y bydd nifer tebyg o fenywod o oedran cario plant (15-49), ond cynnydd yn nifer y menywod yn y grwpiau oedran ffrwythlondeb uwch (25-34) yng Nghastell-nedd Port Talbot dros gyfnod yr amcanestyniad.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn lleihau hyd 2016/17 ac yna'n codi eto i tua 1,640 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Castell-Nedd Port Talbot, yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.

Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oeddrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Castell-Nedd Port Talbot yn cynyddu 1.5 y cant i 139,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 21,500 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 22.5 y cant i 168,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 7,200 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 12.3 y cant i 152,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,800 yn llai na'r prif amcanestyniad.



Pen-y-bont ar Ogwr

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu 21,000 (neu 15.9 y cant) erbyn 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (17.3 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (14.7 y cant).




Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad ac yna bydd nifer y genedigaethau yn parhau'n gymharol gyson.


O'i gymharu â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru dros gyfnod yr amcanestyniad, nid yw nifer y genedigaethau yn cynyddu mor gyflym ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad, fodd bynnag nid amcanestynnir ychwaith y lleihad a amcanestynnir yn nifer y genedigaethau o 2015/16 ymlaen ar draws Cymru. Y rheswm am hyn yw lleihad a amcanestynnir yn nifer y menywod o fewn y grwpiau oedran â lefelau ffrwythlondeb uchel (25-34).

Ers 2002, mae nifer y marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi parhau'n gymharol gyson, sef tua 1,450. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o enedigaethau na marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau dros gyfnod yr amcanestyniad, gan ddilyn y patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn cynyddu. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o newid naturiol ac ymfudiad. Amcanestynnir y bydd ymfudiad net o'r tu allan yn cyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r cynnydd yn y boblogaeth (rhagwelir y bydd tua 670 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Ben-y-bont ar Ogwr nag a fydd yn gadael bob blwyddyn).



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Pen-y-bont ar Ogwr yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gymharol sefydlog, sef ychydig o dan 79 mlynedd. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd disgwyliad oes ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu o 78.9 yn 2005/06, i 82.8 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Ychydig yn uwch ar gyfer menywod na dynion (370 a 320 fel ei gilydd);
- Yr 8fed lefel uchaf ar gyfer menywod a'r 9fed uchaf ar gyfer dynion ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad net rhyngwladol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	25,600	25,700	26,500	27,200	27,300	27,200
Oedran gweithio	80,500	82,400	85,400	88,300	90,900	90,800
Oedran pensiwn	26,500	28,700	29,600	30,500	31,900	35,700
Cyfanswm	132,600	136,800	141,400	146,000	150,100	153,700

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu dros 3 y cant bob 5 mlynedd hyd 2021, ac ar ôl hynny bydd y boblogaeth yn cynyddu'n arafach hyd ganol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 ym Mhen-y-bont ar Ogwr gydol y cyfnod ynghyd â mewnlif net o blant. Mae'r lleihad a welir rhwng canol 2026 a chanol 2031 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n fwy na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yn:

- Cynyddu rhwng 2.5 y cant a 3.5 y cant rhwng pob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd hyd ganol 2026;
- Parhau'n gymharol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiywyr o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 12 y cant);

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiywyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynnol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	318	312	310	308	301	299
Oedran pensiwn	329	348	346	346	351	393
Cyfanswm	647	660	656	653	652	692

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiywyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiywyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywio rhwng 650 a 660 (fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio) hyd ganol 2026 ac yna bydd yn cynyddu'n gymharol gyflym i 690 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio. Bydd y cyfraddau dibyniaeth ar gyfer plant a phensiywyr yn parhau'n gymharol gyson hyd ganol 2026. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2026 a chanol 2031 yn deillio o gynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,537	-1,415	+696	-29	2.0	111
2007-08	1,572	-1,423	+696	-29	2.0	110
2008-09	1,588	-1,404	+696	-29	2.0	107
2009-10	1,602	-1,391	+696	-29	2.0	104
2010-11	1,611	-1,377	+696	-29	2.0	101
2011-12	1,615	-1,371	+696	-29	2.0	98
2012-13	1,614	-1,367	+696	-29	2.0	96
2013-14	1,613	-1,361	+696	-29	2.0	93
2014-15	1,615	-1,356	+696	-29	2.0	91
2015-16	1,618	-1,354	+696	-29	2.0	89
2016-17	1,621	-1,354	+696	-29	2.0	87
2017-18	1,623	-1,360	+696	-29	2.0	85
2018-19	1,622	-1,367	+696	-29	2.0	83
2019-20	1,618	-1,375	+696	-29	2.0	82
2020-21	1,612	-1,388	+696	-29	2.0	80
2021-22	1,605	-1,402	+696	-29	2.0	79
2022-23	1,599	-1,419	+696	-29	2.0	77
2023-24	1,594	-1,438	+696	-29	2.0	76
2024-25	1,591	-1,456	+696	-29	2.0	75
2025-26	1,587	-1,475	+696	-29	2.0	73
2026-27	1,585	-1,497	+696	-29	2.0	72
2027-28	1,586	-1,520	+696	-29	2.0	71
2028-29	1,588	-1,542	+696	-29	2.0	70
2029-30	1,591	-1,569	+696	-29	2.0	70
2030-31	1,596	-1,594	+696	-29	2.0	69

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu i tua 1,620 y flwyddyn yn 2018/19 ac yna'n lleihau dros y cyfnod o 25 mlynedd i tua 1,600 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 2.0. Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yn deillio o effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad ac yna llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn lleihau hyd 2015/16 ac yna'n cynyddu eto i 1,600 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cynnar yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith ar grŵp oedran penodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedranus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynyddu 3.4 y cant i 137,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 16,600 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 21.1 y cant i 161,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,900 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn gostwng 11.0 y cant i 147,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,500 yn is na'r prif amcanestyniad.



Bro Morgannwg

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu 24,700 (neu 20.0 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Mro Morgannwg amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Ym Mro Morgannwg, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (21 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (19 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau ym Mro Morgannwg cyn canol 2005. Ond yn 2005/06 bu gostyngiad yn nifer y genedigaethau. Yn ystod cyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i enedigaethau ym Mro Morgannwg barhau i gynyddu hyd 2019/20 cyn gostwng. Disgwylir i enedigaethau ym Mro Morgannwg barhau i gynyddu am gyfnod hirach o fewn cyfnod yr amcanestyniad o'i gymharu â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y marwolaethau ym Mro Morgannwg wedi amrywio rhwng 1,210 a 1,330. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn lleihau ychydig hyd 2014/15 ac yna cynyddu hyd 2030/31 yn unol â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau hyd ganol 2004. Ers 2004/05, bu mwy o enedigaethau na marwolaethau ym Mro Morgannwg. Disgwylir y bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau ym Mro Morgannwg gydol cyfnod yr amcanestyniad, gan ddilyn y patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Bro Morgannwg wedi cynyddu. Disgwylir i'r tuedd hwn barhau dros gyfnod yr amcanestyniad.

Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o ymfudiad, gyda thua 820 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael bob blwyddyn.




Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Bro Morgannwg yn dilyn y patrwm cyffredinol ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru.


Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes ym Mro Morgannwg wedi gostwng rhywfaint cyn canol 2004, ond wedi bod yn cynyddu ers hynny. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu o 80.1 yn 2005/06, i 83.6 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Bro Morgannwg yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Ychydig yn uwch ar gyfer menywod na dynion (460 a 380 fel ei gilydd);
- Y 6ed lefel ychaf ar gyfer menywod a'r 7ed uchaf ar gyfer menywod ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad rhyngwladol net ar gyfer Bro Morgannwg yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion ac all-lif bychan ar gyfer menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	24,600	24,300	24,400	25,600	26,200	26,200
Oedran gweithio	73,800	76,400	80,200	83,000	86,100	87,000
Oedran pensiwn	24,900	27,400	28,600	30,000	31,400	34,700
Cyfanswm	123,300	128,100	133,300	138,600	143,600	147,900

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu rhwng tua 3 a 4 y cant bob 5 mlynedd hyd ganol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Bro Morgannwg yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2026;
- Parhau yn weddol gyson rhwng o ganol 2021 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 ym Mro Morgannwg ynghyd â mewnlif net o blant. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2026 yn deillio o'r ffaith fod y mewnlif net o blant yn uwch na'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Bro Morgannwg yn:

- Cynyddu rhwng pob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd hyd ganol 2031;
- Cynyddu cyflymaf rhwng canol 2011 a chanol 2016.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Bro Morgannwg yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 11 y cant) a rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 10 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	333	317	305	309	304	301
Oedran pensiwn	338	359	357	362	365	399
Cyfanswm	671	676	662	671	668	700

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth ym Mro Morgannwg yn amrywio rhwng 660 a 680 (fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio) hyd ganol 2006, ac yna cynyddu i tua 700 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹, gan yr amcanestynnir y bydd nifer y plant fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio yn lleihau dros gyfnod yr amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,323	-1,229	+840	-25	1.9	97
2007-08	1,360	-1,244	+840	-25	1.9	97
2008-09	1,382	-1,234	+840	-25	1.9	94
2009-10	1,401	-1,224	+840	-25	1.9	91
2010-11	1,416	-1,219	+840	-25	1.9	89
2011-12	1,425	-1,215	+840	-25	1.9	86
2012-13	1,429	-1,213	+840	-25	1.9	84
2013-14	1,434	-1,212	+840	-25	1.9	82
2014-15	1,441	-1,211	+840	-25	1.9	80
2015-16	1,451	-1,211	+840	-25	1.9	78
2016-17	1,462	-1,212	+840	-25	1.9	76
2017-18	1,471	-1,214	+840	-25	1.9	74
2018-19	1,476	-1,221	+840	-25	1.9	73
2019-20	1,478	-1,229	+840	-25	1.9	71
2020-21	1,476	-1,238	+840	-25	1.9	70
2021-22	1,471	-1,247	+840	-25	1.9	68
2022-23	1,465	-1,260	+840	-25	1.9	67
2023-24	1,460	-1,277	+840	-25	1.9	66
2024-25	1,454	-1,294	+840	-25	1.9	65
2025-26	1,448	-1,311	+840	-25	1.9	64
2026-27	1,442	-1,331	+840	-25	1.9	63
2027-28	1,437	-1,353	+840	-25	1.9	62
2028-29	1,433	-1,378	+840	-25	1.9	61
2029-30	1,430	-1,402	+840	-25	1.9	60
2030-31	1,427	-1,425	+840	-25	1.9	60

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau ym Mro Morgannwg yn cynyddu hyd tua 1,460 erbyn 2016/17 gan yna leihau dros weddill y cyfnod i tua 1,430 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 1.9. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) trwy gydol cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau ym Mro Morgannwg yn lleihau hyd 2014/15 ac yna'n cynyddu eto i 1,430 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Caerffili yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywiolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywiolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu 3.5 y cant i 128,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 20,300 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywiolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 25.0 y cant i 154,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 6,200 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywiolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 15.3 y cant i 142,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 5,800 yn is na'r prif amcanestyniad.



Caerdydd

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Caerdydd yn cynyddu 77,000 (neu 24.2 y cant) erbyn 2031. Amcanestynnir mai Caerdydd fydd yn gweld y twf mwyaf yn y boblogaeth rhwng canol 2006 a chanol 2031 o holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghaerdydd amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth yn hanner cyntaf cyfnod yr amcanestyniad ac yna mwy o ddynion na menywod yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad.


Yng Nghaerdydd amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (30 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (19 y cant).



Mae Caerdydd yn un o ddim ond 3 awdurdod lleol yng Nghymru lle amcanestynnir y bydd dros 50% o'r boblogaeth yn ddynion.

Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd cyffredinol ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yng Nghaerdydd ers 2001/02 ac eithrio gostyngiad bach yn 2003/04. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau yn ystod hanner cyntaf yr amcanestyniad, ac ar ôl hynny bydd nifer y genedigaethau yn lleihau ychydig. Amcanestynnir y bydd y cynnydd mwyaf yn nifer y genedigaethau i'w weld yng Nghaerdydd, o blith holl awdurdodau lleol Cymru.




Ers 2003, mae nifer y marwolaethau yng Nghaerdydd wedi lleihau. Disgwylir i'r tuedd hwn am i lawr barhau hyd 2020/21, ac ar ôl hynny bydd nifer y marwolaethau yn dechrau cynyddu ychydig. O'i gymharu â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru dros gyfnod yr amcanestyniad, nid yw nifer y marwolaethau yng Nghaerdydd yn cynyddu mor gyflym erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad. Mae Caerdydd yn un o ddau awdurdod lleol lle amcanestynnir y bydd nifer llai o farwolaethau yn 2030/31 nag yn 2005/06.

Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o enedigaethau na marwolaethau yng Nghaerdydd. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad, a disgwylir i'r gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau gynyddu.

Amcanestynnir y bydd gan Gaerdydd y lefelau uchaf o newid naturiol positif i'w gweld ar draws Cymru.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Caerdydd wedi bod yn cynyddu'n gyflymach bob blwyddyn o ganol 2002 ymlaen. Disgwylir i boblogaeth Caerdydd barhau i gynyddu gydol cyfnod yr amcanestyniad, er bydd cyfradd y cynnydd yn arafach nag a welwyd yn 2005/06.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Caerdydd yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Nghaerdydd yn parhau cryn dipyn oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yng Nghaerdydd wedi amrywio rhwng 78 a 79 mlynedd. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd disgwyliad oes yn parhau i gynyddu, o 79.0 yn 2005/06, i 83.0 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Er bod gan Gaerdydd y nifer uchaf o bobl sy'n ymfudo i'r DU ac oddi yno, amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Caerdydd yn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd;
- Uwch ar gyfer menywod na dynion (all-lif net o 400 a 180 fel ei gilydd);
- Yr all-lif net uchaf ar gyfer dynion a menywod ar draws holl awdurdodau lleol Cymru

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad net rhyngwladol ar gyfer Caerdydd yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Y mewnlif net uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru;
- Uwch ar gyfer dynion na menywod (mewnlif o 740 a 470 fel ei gilydd);

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	59,300	60,000	64,400	71,400	74,500	75,000
Oedran gweithio	207,600	218,700	230,000	238,900	250,700	260,100
Oedran pensiwn	50,700	51,500	51,200	51,900	53,500	59,200
Cyfanswm	317,500	330,200	345,600	362,300	378,700	394,200

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Caerdydd yn cynyddu rhwng 4 a 5 y cant bob 5 mlynedd hyd ganol 2031. Dyma'r gyfradd gyflymaf y disgwyliar ei gweld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Caerdydd yn:

- Cynyddu bob 5 mlynedd hyd ganol 2031;
- Cynyddu cyflymaf (11 y cant) rhwng canol 2016 a chanol 2021;
- Cynyddu'n arafach o ganol 2021 ymlaen;
- Cynyddu ar gyfradd gyflymach nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru yn ystod unrhyw gyfnod o 5 mlynedd.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd gan Caerdydd all-lif net uchel o blant bob blwyddyn ynghyd â nifer uwch o enedigaethau na phlant sy'n troi'n 16 gydol cyfnod yr amcanestyniad. Ystyrir bod y cynnydd yn deillio o'r gwahaniaethau positif a ragwelir rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n llawer uwch na'r all-lif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Caerdydd yn:

- Cynyddu rhwng pob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd hyd ganol 2031;
- Cynyddu ar gyfradd gyflymach nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru yn ystod unrhyw gyfnod o 5 mlynedd.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensïynwyr o fewn Caerdydd yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Parhau'n gymharol gyson rhwng canol 2011 a chanol 2016;
- Cynyddu bob 5 mlynedd rhwng canol 2016 a chanol 2031 i'r gyfradd gyflymaf o 11 y cant rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensïynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	286	274	280	299	297	288
Oedran pensiwn	244	235	223	217	213	228
Cyfanswm	530	510	503	516	511	516

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensïynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensïynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) o fewn Caerdydd yn lleihau dros gyfnod yr amcanestyniad, o tua 530 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 520 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Mae hyn yn deillio'n bennaf o gynnydd yn nifer y bobl o oedran gweithio, gan gymryd y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth i ystyriaeth¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddyinion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddyinion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddyinion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	4,296	-2,669	-578	+1,210	1.7	100
2007-08	4,443	-2,680	-578	+1,210	1.7	99
2008-09	4,548	-2,639	-578	+1,210	1.8	96
2009-10	4,651	-2,598	-578	+1,210	1.8	94
2010-11	4,743	-2,564	-578	+1,210	1.8	91
2011-12	4,817	-2,538	-578	+1,210	1.8	89
2012-13	4,875	-2,511	-578	+1,210	1.7	86
2013-14	4,925	-2,484	-578	+1,210	1.7	85
2014-15	4,974	-2,460	-578	+1,210	1.7	83
2015-16	5,022	-2,433	-578	+1,210	1.7	81
2016-17	5,063	-2,412	-578	+1,210	1.7	79
2017-18	5,092	-2,395	-578	+1,210	1.7	77
2018-19	5,107	-2,384	-578	+1,210	1.7	76
2019-20	5,107	-2,376	-578	+1,210	1.7	74
2020-21	5,098	-2,370	-578	+1,210	1.7	73
2021-22	5,083	-2,369	-578	+1,210	1.7	71
2022-23	5,063	-2,374	-578	+1,210	1.7	70
2023-24	5,040	-2,382	-578	+1,210	1.7	69
2024-25	5,019	-2,394	-578	+1,210	1.7	68
2025-26	4,996	-2,408	-578	+1,210	1.7	66
2026-27	4,975	-2,425	-578	+1,210	1.7	65
2027-28	4,956	-2,444	-578	+1,210	1.7	64
2028-29	4,942	-2,467	-578	+1,210	1.7	64
2029-30	4,934	-2,494	-578	+1,210	1.7	63
2030-31	4,932	-2,521	-578	+1,210	1.7	62

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghaerdydd yn cynyddu i tua 5,100 y flwyddyn yn 2019/20 ac yna'n lleihau dros weddill y cyfnod i 4,900 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol gyson. Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yn deillio o effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd mwy o fenywod o oedran cario plant (15-49) gydol cyfnod yr amcanestyniad nag a welir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghaerdydd yn lleihau hyd 2021/22 ac yna'n cynyddu ychydig eto i 2,500 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Caerdydd yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu 11.3 y cant i 353,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 40,900 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 29.6 y cant i 412,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 17,400 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn gostwng 18.9 y cant i 378,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 16,700 yn is na'r prif amcanestyniad.



Rhondda Cynon Taf

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu 20,900 (neu 9.0 y cant) erbyn 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Rhondda Cynon Taf amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yn Rhondda Cynon Taf, amcanestynnir y bydd lefelau tebyg o dwf yn y boblogaeth o ddynion ac yn y boblogaeth o fenywod (tua 9 y cant). Dim ond mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru yr amcanestynnir y bydd hyn yn digwydd.



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yn Rhondda Cynon Taf. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i enedigaethau yn Rhondda Cynon Taf ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Ers 2003, mae nifer y marwolaethau yn Rhondda Cynon Taf wedi lleihau. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i lawr barhau hyd 2018/19, ac ar ôl hynny bydd nifer y marwolaethau yn dechrau cynyddu eto. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau hyd 2003/04. Ers 2003/04, bu mwy o enedigaethau na marwolaethau yn Rhondda Cynon Taf. Disgwylir y bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau yn Rhondda Cynon Taf gydol cyfnod yr amcanestyniad, gan ddilyn y patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu ers canol 2002. Disgwylir i boblogaeth Rhondda Cynon Taf barhau i gynyddu gydol gyfnod yr amcanestyniad.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio o newid naturiol ac ymfudiad, gyda newid naturiol yn cynrychioli tua dau draean o'r cynnydd yn y boblogaeth.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Rhondda Cynon Taf yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn Rhondda Cynon Taf yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yn Rhondda Cynon Taf wedi bod yn cynyddu yn gyffredinol.

Disgwylir y bydd y cynnydd hwn yn parhau dros gyfnod yr amcanestyniad o 78.8 yn 2005/06, i 82.7 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Yn uwch ar gyfer menywod na dynion (220 a 110 fel ei gilydd);

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad rhyngwladol net ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	45,500	45,000	46,100	47,600	46,900	45,500
Oedran gw eithio	143,400	145,200	148,100	150,400	153,700	153,100
Oedran pensiw n	45,100	48,100	49,200	50,100	51,300	56,200
Cyfansw m	233,900	238,400	243,400	248,100	251,900	254,900

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu tua 2 y cant bob 5 mlynedd hyd 2021, ac ar ôl hynny bydd y boblogaeth yn cynyddu ar gyfradd arafach hyd ganol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Rhondda Cynon Taf yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2021;
- Lleihau eto o ganol 2021 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir mewnlif net bychan o blant. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2021 yn deillio o fwy o enedigaethau na phlant yn troi'n 16, ynghyd â mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Rhondda Cynon Taf yn:

- Cynyddu rhwng pob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd hyd ganol 2026;
- Parhau yn weddol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Rhondda Cynon Taf yn:

- Parhau i gynyddu hyd 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 10 y cant) a rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 7 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	317	310	312	316	305	297
Oedran pensiwn	314	331	332	333	334	367
Cyfanswm	631	641	644	649	639	664

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu o tua 630 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹, gan yr amcanestynnir y bydd nifer y plant fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio yn lleihau dros gyfnod yr amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	2,876	-2,395	+329	-31	1.9	107
2007-08	2,944	-2,412	+329	-31	1.9	106
2008-09	2,978	-2,382	+329	-31	1.9	103
2009-10	3,006	-2,357	+329	-31	1.9	100
2010-11	3,025	-2,337	+329	-31	1.9	97
2011-12	3,028	-2,322	+329	-31	1.9	94
2012-13	3,018	-2,307	+329	-31	1.9	92
2013-14	3,002	-2,292	+329	-31	1.9	89
2014-15	2,987	-2,279	+329	-31	1.9	87
2015-16	2,974	-2,270	+329	-31	1.9	85
2016-17	2,958	-2,265	+329	-31	1.9	83
2017-18	2,937	-2,264	+329	-31	1.9	81
2018-19	2,913	-2,263	+329	-31	1.9	80
2019-20	2,885	-2,267	+329	-31	1.9	78
2020-21	2,856	-2,276	+329	-31	1.9	76
2021-22	2,828	-2,288	+329	-31	1.9	75
2022-23	2,803	-2,301	+329	-31	1.9	73
2023-24	2,782	-2,319	+329	-31	1.9	72
2024-25	2,764	-2,338	+329	-31	1.9	71
2025-26	2,750	-2,361	+329	-31	1.9	69
2026-27	2,740	-2,385	+329	-31	1.9	68
2027-28	2,735	-2,410	+329	-31	1.9	67
2028-29	2,734	-2,437	+329	-31	1.9	66
2029-30	2,737	-2,469	+329	-31	1.9	65
2030-31	2,743	-2,498	+329	-31	1.9	65

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu hyd tua 3,000 erbyn 2011/12 gan yna leihau dros weddill y cyfnod i 2,700 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 1.9. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) yn y dyfodol nag sydd ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn Rhondda Cynon Taf yn lleihau hyd 2018/19 ac yna'n cynyddu eto i 2,500 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu 4.8 y cant i 245,000 erbyn canol 2031. Mae hyn yn 9,800 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 14.2 y cant i 267,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 12,200 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 4.0 y cant i 243,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 11,500 yn is na'r prif amcanestyniad.



Merthyr Tudful

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Merthyr Tudful yn lleihau 1,500 (neu 2.6 y cant) erbyn canol 2031. Hwn yw'r unig awdurdod lleol ble amcanestynnir lleihad ym maint y boblogaeth dros gyfnod yr amcanestyniad.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Merthyr Tudful, amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Ym Merthyr Tudful, amcanestynnir y bydd lleihad mwy yn y boblogaeth o fenywod (3.4 y cant) nag yn y boblogaeth o ddynion (1.8 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau ym Merthyr Tudful. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau ym Merthyr Tudful yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae nifer y marwolaethau ym Merthyr Tudful wedi amrywio rhwng 600 a 650. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i'r nifer o farwolaethau leihau ychydig hyd 2019/20 ac yna cynyddu hyd 2030/31, yn dilyn patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau ym Merthyr Tudful cyn 2005/06, ond ychydig yn fwy o farwolaethau na genedigaethau yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir y bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau hyd 2026/27, ond disgwylir mwy o farwolaethau na genedigaethau eto wedi hynny. Disgwylir y bydd yn cyd-fynd â'r patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Merthyr Tudful wedi bod yn lleihau ychydig bob blwyddyn. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i boblogaeth Merthyr Tudful aros yn weddol gyson hyd 2019/20 ac yna lleihau.


Disgwylir i ymfudiad effeithio'n sylweddol ar y cynnydd yn y boblogaeth a amcanestynnir, gyda thua 140 yn fwy o bobl yn gadael Merthyr Tudful nag sy'n symud i mewn.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Merthyr Tudful yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Disgwylir i Gyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Merthyr Tudful aros o dan y lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) drwy gydol y cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes ym Merthyr Tudful wedi amrywio o oddeutu 77 mlwydd oed cyn 2005/06 ac yna cynyddu i 78.4 mlwydd oed yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd disgwyliad oes ym Merthyr Tudful yn cynyddu'n gyson i 82.6 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Merthyr Tudful a gweddill y DU yn:

- Negatif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd;
- Yn uwch ar gyfer menywod na dynion (all-lif net o 70 a 50 fel ei gilydd).
- Un o ddau all-lif net a ddisgwyliar o holl awdurdodau lleol Cymru

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Merthyr Tudful a'r tu allan i'r DU yn:

- Yn dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ac yn cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	11,000	10,400	10,500	10,500	10,100	9,400
Oedran gweithio	33,800	33,600	33,300	32,900	32,500	31,300
Oedran pensiwn	10,700	11,500	11,700	11,900	12,200	13,400
Cyfanswm	55,500	55,500	55,500	55,300	54,800	54,100

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Merthyr Tudful yn:

- Parhau'n gymharol gyson hyd ganol 2026;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant (rhwng 0 a 15 oed) o fewn Merthyr Tudful yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Aros yn weddol gyson rhwng canol 2011 a chanol 2021;
- Lleihau rhwng canol 2021 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd all-lif net bychan o blant. Mae'r cysondeb yn nifer y plant rhwng canol 2011 a chanol 2026 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16 yn debyg 'r all-lif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Merthyr Tudful yn:

- Aros yn weddol gyson rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Merthyr Tudful yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 9 y cant), a chanol 2006 a chanol 2011 (tua 7 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	324	311	316	320	310	301
Oedran pensiwn	317	341	351	361	376	427
Cyfanswm	641	652	667	681	686	728

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth ym Merthyr Tudful yn cynyddu o tua 640 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 730 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	657	-553	-120	-18	1.9	107
2007-08	671	-557	-120	-18	2.0	106
2008-09	675	-551	-120	-18	2.0	103
2009-10	679	-545	-120	-18	2.0	100
2010-11	682	-542	-120	-18	2.0	97
2011-12	682	-538	-120	-18	2.0	94
2012-13	679	-534	-120	-18	2.0	91
2013-14	674	-532	-120	-18	1.9	89
2014-15	669	-528	-120	-18	1.9	87
2015-16	663	-527	-120	-18	1.9	85
2016-17	655	-525	-120	-18	1.9	83
2017-18	645	-525	-120	-18	1.9	81
2018-19	633	-524	-120	-18	1.9	79
2019-20	621	-524	-120	-18	1.9	77
2020-21	607	-525	-120	-18	1.9	76
2021-22	595	-528	-120	-18	1.9	74
2022-23	584	-532	-120	-18	1.9	73
2023-24	574	-536	-120	-18	1.9	71
2024-25	565	-540	-120	-18	1.9	70
2025-26	557	-545	-120	-18	1.9	69
2026-27	550	-550	-120	-18	1.9	68
2027-28	545	-554	-120	-18	1.9	66
2028-29	541	-560	-120	-18	1.9	65
2029-30	538	-565	-120	-18	1.9	64
2030-31	536	-571	-120	-18	1.9	64

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau ym Merthyr Tudful yn cynyddu i tua 680 yn 2010/11 ac yna'n lleihau dros weddill y cyfnod i 540 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd lleihad yn nifer y menywod o oedran cario plant (15-49) ym Merthyr Tudful.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Merthyr Tudful yn amrywio o oddeutu 500 i 550 dros gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Merthyr Tudful, yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.

Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oeddrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywiolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywiolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywiolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn cynyddu 5.0 y cant i 58,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 4,200 yn fwy na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywiolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.3 y cant i 57,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 2,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywiolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.3 y cant i 52,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 2,600 yn llai na'r prif amcanestyniad.



Caerffili

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Caerffili yn cynyddu 12,800 (neu 7.5 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghaerffili amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yng Nghaerffili, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (8.9 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (6.1 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yng Nghaerffili ers 2001/02. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau yn ystod blynyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i enedigaethau yng Nghaerffili ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.


Mae nifer y marwolaethau yng Nghaerffili wedi amrywio rhwng 1,700 a 1,900 dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn lleihau ychydig hyd 2015/16 ac yna cynyddu hyd 2030/31 yn unol â'r patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o enedigaethau na marwolaethau yng Nghaerffili. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad, gan ddilyn y patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.


Amcanestynnir y ceir un o'r lefelau uchaf o newid naturiol yng Nghaerffili o'i gymharu â gweddill Cymru.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Caerffili wedi cynyddu'n gyffredinol (er bu i'r boblogaeth barhau'n gymharol gyson yn 2002/03 a 2004/05). Disgwylir i boblogaeth Caerffili barhau i gynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad, er o 2025/26 bydd yn cynyddu ar gyfradd arafach nag a welir ar hyn o bryd.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o newid naturiol, gyda chyfraniad llai drwy ymfudiad (tua 140 yn fwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael).



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Caerffili yn dilyn y patrwm cyffredinol ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yng Nghaerffili yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yng Nghaerffili wedi bod yn gymharol sefydlog, sef tua 78. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd disgwyliad oes yn parhau i gynyddu o 78.5 yn 2005/06, i 82.7 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Caerffili yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Tua'r un lefelau ar gyfer dynion a menywod (mewnlif net o tua 170);
- Y 9fed lefel isaf ar gyfer dynion a'r 10fed isaf ar gyfer menywod ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad rhyngwladol net ar gyfer Caerffili yn:

- Negyddol ar gyfer dynion a menywod, gan ddangos bod mwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd;
- Y lefel uchaf o ymfudiad net i'r tu allan i'w weld ar draws Cymru ar gyfer dynion a menywod (100 a 90 yn fwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd fel ei gilydd);

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	34,800	34,000	34,100	34,600	34,100	33,000
Oedran gweithio	104,500	105,500	107,400	108,700	110,300	108,900
Oedran pensiwn	32,000	34,900	36,200	37,400	38,500	42,200
Cyfanswm	171,300	174,400	177,700	180,700	182,800	184,200

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Caerffili yn cynyddu tua 2 y cant bob 5 mlynedd hyd 2021, ac ar ôl hynny bydd y boblogaeth yn cynyddu ar gyfradd arafach hyd ganol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Caerffili yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2021;
- Lleihau eto o ganol 2021 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, heblaw am ganol 2016 gweithio 2021, rhagwelir y bydd nifer llai o enedigaethau nag sydd o blant yn troi'n 16 yng Nghaerffili ynghyd â mewnlif net o blant. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2021 yn deillio'n bennaf o'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Caerffili yn:

- Cynyddu rhwng 1 a 2 y cant a rhwng pob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd hyd ganol 2026;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 a chanol 2031

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Caerffili yn:

- Parhau i gynyddu hyd canol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 10 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynnol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	333	322	318	318	309	303
Oedran pensiwn	306	331	337	344	349	388
Cyfanswm	639	653	654	662	658	691

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yng Nghaerffili yn cynyddu o tua 640 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 690 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹, gan yr amcanestynnir y bydd nifer y plant fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio yn lleihau dros gyfnod yr amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	2,085	-1,653	+333	-197	2.0	107
2007-08	2,125	-1,674	+333	-197	2.0	106
2008-09	2,140	-1,659	+333	-197	2.0	102
2009-10	2,153	-1,652	+333	-197	2.0	100
2010-11	2,163	-1,643	+333	-197	2.0	97
2011-12	2,164	-1,637	+333	-197	2.0	94
2012-13	2,158	-1,632	+333	-197	2.0	91
2013-14	2,151	-1,631	+333	-197	2.0	89
2014-15	2,145	-1,630	+333	-197	2.0	87
2015-16	2,139	-1,629	+333	-197	2.0	85
2016-17	2,132	-1,632	+333	-197	2.0	83
2017-18	2,122	-1,635	+333	-197	2.0	81
2018-19	2,108	-1,643	+333	-197	2.0	80
2019-20	2,089	-1,654	+333	-197	2.0	78
2020-21	2,067	-1,663	+333	-197	2.0	76
2021-22	2,047	-1,675	+333	-197	2.0	75
2022-23	2,027	-1,692	+333	-197	2.0	73
2023-24	2,008	-1,709	+333	-197	2.0	72
2024-25	1,992	-1,726	+333	-197	2.0	71
2025-26	1,977	-1,745	+333	-197	2.0	69
2026-27	1,963	-1,764	+333	-197	2.0	68
2027-28	1,953	-1,787	+333	-197	2.0	67
2028-29	1,945	-1,810	+333	-197	2.0	66
2029-30	1,939	-1,834	+333	-197	2.0	65
2030-31	1,934	-1,860	+333	-197	2.0	64

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghaerffili yn cynyddu hyd tua 2,160 erbyn 2011/12 gan yna leihau dros weddill y cyfnod i 1,900 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 2.0. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad ac yna llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghaerffili yn lleihau hyd 2015/16 ac yna'n cynyddu eto i 1,900 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Caerffili yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Caerffili yn cynyddu 6.0 y cant i 182,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 2,600 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 12.7 y cant i 193,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 8,900 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.6 y cant i 176,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 8,400 yn is na'r prif amcanestyniad.



Blaenau Gwent

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent yn cynyddu 1,900 (neu 2.7 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Ym Mlaenau Gwent amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Ym Mlaenau Gwent, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o fenywod (4.4 y cant) nag yn y boblogaeth o ddynion (0.8 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau ym Mlaenau Gwent ers 2001/02. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau ym Mlaenau Gwent yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Ers 2003, mae nifer y marwolaethau ym Mlaenau Gwent wedi lleihau. Disgwylir i'r tueddiad hwn ar i lawr barhau (heblaw am gynnydd bach yn 2007/08) hyd 2015/16, ac yna y bydd nifer y marwolaethau yn dechrau cynyddu eto. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau ym Mlaenau Gwent. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd mwy o enedigaethau na marwolaethau hyd 2023/24, ac ar ôl hynny bydd mwy o farwolaethau na genedigaethau unwaith eto.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Blaenau Gwent wedi amrywio (gan gynyddu a lleihau). Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn cynyddu hyd 2026/27, ac ar ôl hynny bydd yn lleihau ychydig.


Rhagwelir y bydd y cynnydd ac amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o newid naturiol, gyda chyfraniad bach o ymfudiad o'r tu allan (gyda thua 30 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Flaenau Gwent nag sy'n gadael bob blwyddyn).



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Blaenau Gwent yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb ym Mlaenau Gwent yn parhau oddi tano'r lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) gydol cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes ym Mlaenau Gwent wedi cynyddu. Amcanestynnir y bydd y tueddiad fod disgwyliad oes ym Mlaenau Gwent wedi hwn ar i fyny yn parhau dros gyfnod yr amcanestyniad, o 77.5 yn 2005/06 i 82.0 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad net mewnol ar gyfer Blaenau Gwent yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;
- Y 3ydd lefel isaf ar gyfer dynion a'r 4ydd isaf ar gyfer menywod ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad rhyngwladol net ar gyfer Blaenau Gwent yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	13,400	12,600	12,900	13,600	13,400	12,800
Oedran gweithio	41,800	41,900	42,100	41,900	42,000	40,900
Oedran pensiwn	14,200	15,200	15,500	15,700	16,000	17,500
Cyfanswm	69,300	69,700	70,500	71,100	71,300	71,200

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent yn:

- Cynyddu tua 1 y cant bob 5 mlynedd hyd ganol 2021, ac ar ôl hynny bydd y boblogaeth yn cynyddu ar raddfa arafach rhwng canol 2021 a chanol 2026;
- Parhau'n gymharol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031;

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Blaenau Gwent yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2021;
- Lleihau eto o ganol 2021 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd Blaenau Gwent yn cael mewnlif net bychan o blant bob blwyddyn. Mae'r cynnydd a'r lleihad a amlinellir uchod yn deillio o wahaniaethau rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 ym mhob un o'r cyfnodau o 5 mlynedd.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Blaenau Gwent yn:

- Parhau'n gymharol sefydlog, sef tua 42,000, rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Blaenau Gwent yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 10 y cant);

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	321	301	306	324	319	312
Oedran pensiwn	339	362	367	374	380	428
Cyfanswm	660	663	674	698	699	740

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth ar Ynys Môn yn cynyddu o tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 740 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	802	-791	+37	-6	1.9	113
2007-08	823	-797	+37	-6	1.9	112
2008-09	837	-786	+37	-6	2.0	109
2009-10	849	-779	+37	-6	2.0	106
2010-11	860	-771	+37	-6	2.0	103
2011-12	868	-764	+37	-6	2.0	100
2012-13	871	-758	+37	-6	1.9	97
2013-14	872	-754	+37	-6	1.9	95
2014-15	872	-750	+37	-6	1.9	93
2015-16	870	-745	+37	-6	1.9	91
2016-17	866	-743	+37	-6	1.9	88
2017-18	859	-743	+37	-6	1.9	87
2018-19	849	-744	+37	-6	1.9	85
2019-20	836	-746	+37	-6	1.9	83
2020-21	821	-750	+37	-6	1.9	81
2021-22	806	-753	+37	-6	1.9	80
2022-23	791	-759	+37	-6	1.9	78
2023-24	776	-765	+37	-6	1.9	77
2024-25	765	-772	+37	-6	1.9	75
2025-26	756	-778	+37	-6	1.9	74
2026-27	749	-785	+37	-6	1.9	73
2027-28	744	-794	+37	-6	1.9	72
2028-29	741	-801	+37	-6	1.9	71
2029-30	740	-810	+37	-6	1.9	70
2030-31	741	-819	+37	-6	1.9	69

Pwyntiau ar gyfer Crynhoi:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau ym Mlaenau Gwent yn cynyddu i tua 870 yn 2014/15 ac yna'n lleihau dros y cyfnod o 25 mlynedd i tua 740 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog. Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yn deillio o effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd rhagor o fenywod o oedran cario plant (15-49) ym mlynnyddoedd cyntaf yr amcanestyniad ac yna llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) yn ail hanner cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau ym Mlaenau Gwent yn lleihau hyd 2016/17 ac yna'n cynyddu eto i 820 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Blaenau Gwent yn lleihau.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwylad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cynnar yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedranus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y marwolaethau a ragwelir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn cynyddu 2.9 y cant i 71,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 200 yn fwy na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 7.9 y cant i 75,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 3,600 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn gostwng 2.3 y cant i 68,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 3,400 yn is na'r prif amcanestyniad.



Torfaen

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Torfaen yn cynyddu 3,700 (neu 4.0 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Nhorfaen amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yn Nhorfaen, amcanestynnir y bydd rhagor o dwf yn y boblogaeth o ddynion (6 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (3 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yn Nhorfaen. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau yn ystod blynyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i enedigaethau yn Nhorfaen ddilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Cyn canol 2005, amrywiodd nifer y marwolaethau yn Nhorfaen oddeutu 950, ac yn 2005/06 bu gostyngiad i tua 900. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn amrywio oddeutu 900 hyd 2020/21 ac yna cynyddu i tua 985 yn 2030/31. Nid yw hyn yn unol â'r patrwm cyffredinol o ostyngiadau yn nifer y marwolaethau hyd 2015/16 a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o enedigaethau na marwolaethau yn Nhorfaen ers 2003/04. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau gydol cyfnod yr amcanestyniad, gan ddilyn y patrwm cyffredinol y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Net Cyffredinol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Torfaen wedi bod yn amrywio (cynyddu a gostwng). Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i boblogaeth Torfaen gynyddu.


Rhagwelir y bydd y cynnydd a amcanestynnir yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o newid naturiol, gan y disgwylir bydd ychydig yn fwy o bobl (tua 50) yn gadael Torfaen na fydd yn cyrraedd.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Torfaen yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Am 10 mlynedd rhwng canol 2007 a chanol 2017 disgwylir i gyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb fod uwchlaw'r lefel adnewyddu (2.08).

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yn Nhorfaen wedi bod yn cynyddu yn gyffredinol. Ar ôl gostyngiad bach yn 2006/07 a 2007/08, disgwylir bydd y duedd i gynyddu yn parhau dros gyfnod yr amcanestyniad, o 80.6 yn 2005/06, i 83.5 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad mewnol net ar gyfer Torfaen yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn;
- Y 9fed lefel isaf ar gyfer menywod a'r 4ydd isaf ar gyfer dynion ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad rhyngwladol net ar gyfer Torfaen yn:

- Dangos bod nifer tebyg o bobl yn gadael ag sy'n cyrraedd bob blwyddyn o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion ac all-lif bychan ar gyfer menywod;

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	17,900	17,300	17,800	18,600	18,200	17,400
Oedran gw eithio	54,500	54,500	54,600	54,100	54,400	53,100
Oedran pensiw n	18,600	20,200	20,900	21,500	22,000	24,200
Cyfansw m	91,000	92,000	93,200	94,100	94,600	94,700

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Torfaen yn:

- Cynyddu bob 5 mlynedd hyd ganol 2026.
- Parhau yn weddol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y plant o fewn Torfaen yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2021;
- Lleihau eto o ganol 2021 hyd ganol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd mewnlif net bychan o blant yn Nhorfaen. Rhwng canol 2011 a chanol 2021, disgwylir y bydd gan Dorfaen nifer uwch o enedigaethau na phlant yn troi'n 16. Y tu allan i'r cyfnod hwn, disgwylir y gwrthwyneb. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2021 yn deillio o'r ffaith y disgwylir i nifer y genedigaethau fod yn uwch na nifer y plant yn troi'n 16.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Torfaen yn:

- Parhau yn weddol gyson rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau ychydig rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Torfaen yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 10 y cant) a rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 9 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	328	318	325	343	334	328
Oedran pensiwn	341	371	383	396	405	455
Cyfanswm	669	688	708	739	739	783

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yn Nhorfaen yn cynyddu o tua 670 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 780 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,112	-887	+5	-48	2.1	96
2007-08	1,135	-905	+5	-48	2.1	95
2008-09	1,146	-902	+5	-48	2.1	92
2009-10	1,158	-898	+5	-48	2.1	89
2010-11	1,166	-895	+5	-48	2.1	87
2011-12	1,168	-893	+5	-48	2.1	84
2012-13	1,167	-894	+5	-48	2.1	82
2013-14	1,166	-894	+5	-48	2.1	80
2014-15	1,165	-893	+5	-48	2.1	78
2015-16	1,162	-892	+5	-48	2.1	76
2016-17	1,155	-892	+5	-48	2.1	75
2017-18	1,145	-892	+5	-48	2.1	73
2018-19	1,133	-893	+5	-48	2.1	71
2019-20	1,118	-896	+5	-48	2.1	70
2020-21	1,100	-899	+5	-48	2.1	68
2021-22	1,082	-903	+5	-48	2.1	67
2022-23	1,067	-910	+5	-48	2.1	65
2023-24	1,054	-916	+5	-48	2.1	64
2024-25	1,042	-923	+5	-48	2.1	63
2025-26	1,031	-931	+5	-48	2.1	62
2026-27	1,023	-939	+5	-48	2.1	61
2027-28	1,017	-950	+5	-48	2.1	60
2028-29	1,012	-960	+5	-48	2.1	59
2029-30	1,010	-972	+5	-48	2.1	58
2030-31	1,010	-985	+5	-48	2.1	58

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Nhorfaen yn cynyddu hyd tua 1,170 erbyn 2011/12 gan yna leihau dros weddill y cyfnod i tua 1,000 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n gymharol sefydlog, ar lefel o tua 2.1. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd llai o fenywod o oedran cario plant (15-49) gydol cyfnod yr amcanestyniad nag a geir ar hyn o bryd.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn Nhorfaen yn amrywio oddeutu 900 hyd 2020/21 ac yna'n cynyddu i tua 990 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Caerffili yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.
- Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oedrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Torfaen yn cynyddu 6.8 y cant i 97,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 2,500 yn fwy na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 9.2 y cant i 99,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 4,700 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn gostwng 0.9 y cant i 90,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 4,500 yn is na'r prif amcanestyniad.



Sir Fynwy

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Fynwy yn cynyddu 12,500 (neu 14.2 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn uwch na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yn Sir Fynwy, amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yn Sir Fynwy, amcanestynnir y bydd cynnydd mwy yn y boblogaeth o ddynion (15.2 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (13.3 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod nifer y genedigaethau yn Sir Fynwy yn cynyddu hyd 2003/04, ond yn lleihau wedi hynny. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir Fynwy yn amrywio rhwng 800 a 860. Nid yw hyn yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru. Ceir y patrwm hwn yn Sir Fynwy oherwydd lleihad yn nifer o fenywod yn y grwpiau ffrwythlondeb uchel (25-34) ym mlynnyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad, ond byddant yn cynyddu o 2010/11 pryd amcanestynnir i lefelau ffrwythlondeb leihau.

Ers canol 2002 mae'r nifer o farwolaethau yn Sir Fynwy wedi bod yn weddol sefydlog, o dan 900. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i'r nifer o farwolaethau aros yn weddol gyson hyd 2010/11 ac yna cynyddu hyd ddiwedd y cyfnod amcanestyniad. Nid yw hyn yn dilyn patrwm cyffredinol o'r nifer o farwolaethau'n lleihau hyd 2015/16 a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.



Siart 4: Newid Naturiol


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Sir Fynwy wedi aros yn weddol gyson ers 2002. Dros holl gyfnod yr amcanestyniad disgwylir y bydd mwy o farwolaethau na genedigaethau. Mae Sir Fynwy yn un o 8 awdurdod lleol lle disgwylir mwy o farwolaethau na genedigaethau dros holl gyfnod yr amcanestyniad. Heb ymfudo mewnol, byddai poblogaeth Sir Fynwy yn lleihau.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Sir Fynwy wedi bod yn cynyddu. Disgwylir i'r duedd yma barhau dros holl gyfnod yr amcanestyniad.


Disgwylir i ymfudiad effeithio'n sylweddol ar y cynnydd yn y boblogaeth a amcanestynnir, gyda thua 620 yn fwy o bobl yn symud i mewn i Sir Fynwy nag sy'n gadael bob blwyddyn.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Sir Fynwy yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Disgwylir i Gyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Sir Fynwy aros o dan y lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) drwy gydol y cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod disgwyliad oes yn Sir Fynwy wedi bod yn cynyddu yn gyffredinol, ac eithrio lleihad bach yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn Sir Fynwy yn cynyddu o 80.9 yn 2005/06 i 84.3 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Sir Fynwy a gweddill y DU yn:

- Bositif, gan awgrymu bod mwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd;
- Tua'r un peth ar gyfer dynion a menywod (mewnlfif net o tua 340).

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Sir Fynwy a'r tu allan i'r DU yn:

- Negatif, gan awgrymu bod nifer fwy o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer dynion a menywod (-40 a -30 fel ei gilydd).

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	16,700	16,000	15,800	15,900	16,100	16,100
Oedran gweithio	51,400	52,400	53,900	55,200	56,200	54,900
Oedran pensiwn	19,700	22,300	23,700	25,000	26,200	29,300
Cyfanswm	87,900	90,700	93,400	96,100	98,500	100,400

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Fynwy yn cynyddu o oddeutu 3 y cant bob 5 mlynedd nes canol 2021, wedi hynny amcanestynnir iddo gynyddu ar gyfradd arafach hyd ganol 2031.

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Sir Fynwy yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2016;
- Cynyddu ychydig rhwng canol 2016 a chanol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd nifer is o enedigaethau na phlant yn troi'n 16 mlwydd oed a mewnlif net o blant. Mae'r gostyngiad bychan a welir rhwng canol 2016 a chanol 2031 yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r plant sy'n troi'n 16, sy'n llai na'r mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Sir Fynwy yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Lleihau rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Sir Fynwy yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2006 a chanol 2011 (tua 13 y cant), a chanol 2026 a chanol 2031 (tua 12 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	326	305	294	289	286	294
Oedran pensiwn	384	425	439	453	465	533
Cyfanswm	710	730	733	742	752	827

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio .

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yn Sir Fynwy yn cynyddu o tua 710 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2006 i 830 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio yng nghanol 2031. Y prif reswm am hyn fydd cynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹, gan yr amcanestynnir y bydd nifer y plant fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio yn lleihau dros rhanfwyaf cyfnod yr amcanestyniad.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	814	-864	+680	-62	2.0	87
2007-08	824	-879	+680	-62	2.0	87
2008-09	826	-879	+680	-62	2.0	84
2009-10	827	-881	+680	-62	2.0	82
2010-11	827	-882	+680	-62	2.0	80
2011-12	824	-888	+680	-62	2.0	78
2012-13	822	-892	+680	-62	2.0	76
2013-14	823	-897	+680	-62	2.0	74
2014-15	825	-901	+680	-62	2.0	72
2015-16	830	-908	+680	-62	2.0	71
2016-17	837	-915	+680	-62	2.0	69
2017-18	844	-922	+680	-62	2.0	68
2018-19	851	-930	+680	-62	2.0	66
2019-20	856	-940	+680	-62	2.0	65
2020-21	858	-951	+680	-62	2.0	64
2021-22	859	-963	+680	-62	2.0	62
2022-23	859	-974	+680	-62	2.0	61
2023-24	857	-988	+680	-62	1.9	60
2024-25	854	-1,002	+680	-62	1.9	59
2025-26	850	-1,017	+680	-62	1.9	58
2026-27	844	-1,034	+680	-62	1.9	57
2027-28	836	-1,052	+680	-62	1.9	56
2028-29	829	-1,071	+680	-62	1.9	56
2029-30	821	-1,091	+680	-62	1.9	55
2030-31	815	-1,112	+680	-62	2.0	54

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn Sir Fynwy yn amrywio rhwng 810 ac 850 dros gyfnod yr amcanestyniad, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n weddol sefydlog. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd lleihad yn nifer y menywod o oedran cario plant (15-49), ond cynnydd yn y nifer y menywod mewn grwpiau oedran ffrwythlondeb uchel (25-34) yn Sir Fynwy dros gyfnod yr amcanestyniad.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn Sir Fynwy yn cynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Merthyr Tudful, yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.

Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oeddrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywiolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywiolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Sir Fynwy yn cynyddu 0.1 y cant i 88,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 12,400 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywiolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 18.9 y cant i 105,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 4,100 yn uwch na'r prif amcanestyniad.


O dan yr amrywiolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 9.9 y cant i 97,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 3,800 yn llai na'r prif amcanestyniad.



Casnewydd

Siart 1: Cyfanswm y Boblogaeth


Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Casnewydd yn cynyddu 19,300 (neu 13.8 y cant) erbyn canol 2031. Mae hyn yn is na'r twf cyfartalog yn y boblogaeth (14.1 y cant) yn ôl yr amcanestyniad ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 2: Poblogaeth yn ôl Rhyw

Yng Nghasnewydd, amcanestynnir y bydd mwy o fenywod na dynion yn y boblogaeth gydol cyfnod yr amcanestyniad.


Yng Nghasnewydd, amcanestynnir y bydd cynnydd mwy yn y boblogaeth o ddynion (16.9 y cant) nag yn y boblogaeth o fenywod (10.8 y cant).



Siart 3: Genedigaethau a Marwolaethau


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran nifer y genedigaethau yng Nghasnewydd. Disgwylir i'r tuedd hwn ar i fyny barhau ym mlynnyddoedd cychwynol yr amcanestyniad. Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghasnewydd yn dilyn y patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae nifer y marwolaethau yng Nghasnewydd wedi amrywio o gwmpas 1,400. Dros gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i'r nifer o farwolaethau leihau ychydig hyd 2018/19 ac yn cynyddu hyd 2030/31, yn dilyn patrwm cyffredinol a welir ar draws awdurdodau lleol Cymru.




Siart 4: Newid Naturiol

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Nghasnewydd. Dros holl gyfnod yr amcanestyniad disgwylir i hyn barhau, yn cydfynd â'r patrwm y disgwylir ei weld ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.



Siart 5: Newid Cyffredinol yn y Boblogaeth


Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod poblogaeth Casnewydd wedi bod yn cynyddu. Arafodd y gyfradd gynyddu bob blwyddyn rhwng 2001/02 a 2004/05, ond cododd unwaith eto yn 2005/06. Dros gyfnod yr amcanestyniad, disgwylir i boblogaeth Casnewydd gynyddu bob blwyddyn.



Siart 6: Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb


Rhagwelir y bydd Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Casnewydd yn dilyn yr un patrwm ag a welir mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Disgwylir i Gyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb Casnewydd aros o dan y lefel ffrwythlondeb adnewyddu (2.08) drwy gydol y cyfnod yr amcanestyniad.

Y lefel ffrwythlondeb adnewyddu yw lefel y ffrwythlondeb sydd ei hangen fel y gall y boblogaeth adnewyddu ei hun o ran maint o ystyried cyfraddau marwolaeth cyson a diffyg ymfudiad.



Siart 7: Disgwyliad Oes

Dengys y data gwirioneddol mwyaf diweddar fod tuedd ar i fyny o ran disgwyliad oes yng Nghasnewydd. Disgwylir i'r tuedd yma barhau dros gyfnod yr amcanestyniad, o 78.9 yn 2005/06 i 82.8 yn 2030/31.



Ymfudiad mewnol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Casnewydd a gweddill y DU yn:

- Bositif ar gyfer dynion a menywod, gan awgrymu bod mwy o bobl yn cyrraedd nag sy'n gadael;
- Uwch ar gyfer dynion na menywod (+60 a +140 fel ei gilydd);
- Y 6ed isaf ar gyfer menywod a'r 8fed isaf ar gyfer dynion o holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymfudiad rhyngwladol net yn ôl rhyw

Amcanestynnir y bydd yr ymfudiad o bobl rhwng Casnewydd a'r tu allan i'r DU yn:

- Dangos niferoedd tebyg o bobl yn gadael nag sy'n cyrraedd o dramor;
- Dangos lefelau tebyg ar gyfer menywod a mewnlif net bach ar gyfer dynion.

Tabl 1: Newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran allweddol

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	29,200	28,600	28,900	30,200	30,700	30,400
Oedran gweithio	84,400	87,000	90,700	93,200	95,800	96,400
Oedran pensiwn	26,600	27,900	28,100	28,500	29,400	32,600
Cyfanswm	140,100	143,500	147,700	152,000	156,000	159,400

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Casnewydd yn cynyddu o rhwng 2 a 3 y cant bob 5 mlynedd nes canol 2031.

Amcanestynnir y bydd cyfanswm poblogaeth Casnewydd yn:

- Lleihau rhwng canol 2006 a chanol 2011;
- Cynyddu rhwng canol 2011 a chanol 2026;
- Lleihau unwaith eto rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y newidiadau hyn; yn gyntaf, y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y plant sy'n troi'n 16 (a ddiffinnir fel yr oedran gweithio) ym mhob cyfnod o 5 mlynedd; ac yn ail ymfudiad. Ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd, rhagwelir y bydd mewnlif net o blant. Mae'r cynnydd a welir rhwng canol 2011 a chanol 2026 oherwydd yr amcanestynnir y bydd mwy o enedigaethau na phlant yn troi'n 16 oed, a mewnlif net o blant.

Amcanestynnir y bydd nifer y bobl o oedran gweithio o fewn Casnewydd yn:

- Cynyddu rhwng canol 2006 a chanol 2026;
- Aros yn weddol gyson rhwng canol 2026 a chanol 2031.

Amcanestynnir y bydd nifer y pensiynwyr o fewn Casnewydd yn:

- Parhau i gynyddu hyd ganol 2031 er gwaethaf cynnydd yn yr oedran pensiwn ar gyfer menywod (o 2010) a dynion (o 2024). Bydd cyfradd y cynnydd gyflymaf rhwng canol 2026 a chanol 2031 (tua 11 y cant).

Mae dau ffactor yn gyfrifol am y cynnydd yn nifer y pensiynwyr; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach; ac yn ail y ffaith bod grwpiau mwy o'r un oedran yn heneiddio, fel y rhai a aned ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Tabl 2: Pobl ddibynnol fesul 1,000 o bobl o oed gweithio, blynyddoedd detholedig

	2006	2011	2016	2021	2026	2031
Plant	346	328	319	324	321	315
Oedran pensiwn	315	321	310	306	307	338
Cyfanswm	661	649	629	630	628	654

Ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad, roedd y gyfradd o ddibyniaeth (nifer y plant a'r pensiynwyr fesul 1,000 o oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru tua 660 fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio .

Dros gyfnod yr amcanestyniad amcanestynnir y bydd y gyfradd ddibyniaeth yng Nghasnewydd yn amrywio rhwng 630 a 660 (fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio) dros gyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn cael ei effeithio gan yr amrywiaeth yn nifer y plant a nifer y bobl o oedran pensiwn. Fodd bynnag, y cynnydd yn y nifer o bobl o oedran pensiwn yn gyfrifol am y cynnydd rhwng canol 2026 a chanol 2031, hyd yn oed pan gaiff y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth ei ystyried¹.

¹ Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Tabl 3: Cydrannau newid yn y boblogaeth, blynyddoedd allweddol

BLWYDDYN	Genedigaethau	Marwolaethau	Ymfudwyr DU net	Ymfudwyr tramor net	Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb	Cymhareb marwolaethau safonedig
2006-07	1,732	-1,348	+206	+12	2.0	100
2007-08	1,783	-1,365	+206	+12	2.0	100
2008-09	1,812	-1,346	+206	+12	2.0	97
2009-10	1,839	-1,329	+206	+12	2.0	94
2010-11	1,865	-1,321	+206	+12	2.0	91
2011-12	1,883	-1,309	+206	+12	2.0	89
2012-13	1,893	-1,299	+206	+12	2.0	86
2013-14	1,901	-1,290	+206	+12	2.0	85
2014-15	1,912	-1,283	+206	+12	2.0	83
2015-16	1,923	-1,274	+206	+12	2.0	81
2016-17	1,929	-1,272	+206	+12	2.0	79
2017-18	1,933	-1,271	+206	+12	2.0	77
2018-19	1,932	-1,269	+206	+12	2.0	75
2019-20	1,924	-1,271	+206	+12	2.0	74
2020-21	1,912	-1,273	+206	+12	2.0	72
2021-22	1,898	-1,276	+206	+12	2.0	71
2022-23	1,884	-1,283	+206	+12	2.0	69
2023-24	1,869	-1,291	+206	+12	2.0	68
2024-25	1,855	-1,299	+206	+12	2.0	67
2025-26	1,843	-1,308	+206	+12	2.0	66
2026-27	1,833	-1,319	+206	+12	2.0	65
2027-28	1,824	-1,333	+206	+12	2.0	64
2028-29	1,817	-1,348	+206	+12	2.0	63
2029-30	1,813	-1,364	+206	+12	2.0	62
2030-31	1,811	-1,380	+206	+12	2.0	61

Pwyntiau Allweddol:

- Er yr amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yng Nghasnewydd yn cynyddu i tua 1,930 yn 2017/18 ac yna'n lleihau dros weddill y cyfnod i 1,810 yn 2030/31, amcanestynnir y bydd Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yn parhau'n weddol sefydlog o gwmpas 2.0. Y rheswm am y newid a welir yn y ffigurau ynghylch genedigaethau yw'r effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, hynny yw amcanestynnir y bydd cynnydd yn nifer y menywod o oedran cario plant (15-49) dros gyfnod yr amcanestyniad.
- Amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yng Nghasnewydd yn lleihau hyd 2018/19 ac yna'n codi eto i 1,380 yn 2030/31. Serch hynny, amcanestynnir y bydd y Gymhareb Marwolaethau Safonol ar gyfer Casnewydd, yn parhau i leihau dros holl gyfnod yr amcanestyniad hyd 2030/31.

Mae'r newid a welir yn y ffigurau ynghylch marwolaethau yn deillio o 2 ffactor; yn gyntaf y cynnydd a ragwelir yn nisgwyliad oes pobl (sy'n egluro'r lleihad ym mlynyddoedd cychwynnol yr amcanestyniad); ac yn ail, yr effaith sydd ynghlwm â charfan benodol, sef os yw pobl yn byw'n hirach, yn y dyfodol bydd rhagor o bobl yn y boblogaeth o bobl oeddrannus iawn (dros 90 oed), sy'n grŵp oedran â Chymhareb Marwolaethau Safonol uwch. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y marwolaethau a amcanestynnir.

Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth, mae amcanestyniadau ar sail amrywolion wedi'u cyhoeddi yn ogystal ar y cyd â'r prif amcanestyniad poblogaeth.

Enghreifftiol yn unig yw'r canlyniadau canlynol i ddangos sut mae newidiadau yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaeth ac ymfudo yn effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith yn cynyddu trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau.

Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad (newid naturiol yn unig) wedi'i lunio er mwyn dangos amcanestyniad poblogaeth pob awdurdod lleol petai dim ymfudiad o'r tu allan nac i'r tu allan. Mae amrywolion uchel ac isel wedi'u llunio yn ogystal.

Mae'r amrywolyn uchel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is (h.y. disgwyliad oes uwch).


Mae'r amrywolyn isel yn seiliedig ar dybiaethau o gyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch (h.y. disgwyliad oes is).

Siart 8: Amcanestyniadau ar sail Amrywolion

O dan yr amcanestyniad lle ceir newid naturiol (dim ymfudiad), amcanestynnir y bydd poblogaeth Casnewydd yn cynyddu 8.2 y cant i 152,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 7,800 yn llai na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn uchel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 19.1 y cant i 167,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 7,500 yn uwch na'r prif amcanestyniad.

O dan yr amrywolyn isel, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 8.7 y cant i 152,000 erbyn canol 2031. Mae hyn 7,100 yn llai na'r prif amcanestyniad.



Gwybodaeth am Ansawdd

Darperir gwybodaeth am ansawdd drwy'r cyhoeddiad hwn. Mae detholiad o wybodaeth allweddol am ansawdd ar gael isod hefyd. Bydd adroddiad technegol llawn yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2008.

Diffiniadau

Caiff yr amcanestyniad poblogaeth ei lunio ar 30 Mehefin bob blwyddyn. Mae cydrannau'r amcanestyniad (genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo) yn seiliedig ar gyfnod o flwyddyn (canol y flwyddyn i ganol y flwyddyn).

Poblogaeth Sylfaenol

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol 2006 wedi cael eu defnyddio fel poblogaeth sylfaenol yr amcanestyniadau hyn.

Amcangyfrifon Poblogaeth

Mae'r rhain yn seiliedig ar y trigolion arferol. Mae'r trigolion arferol sydd i ffwrdd o gartref dros dro wedi cael eu cynnwys, ond nid yw ymwelwyr wedi cael eu cynnwys. Caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad tymor. Dylid nodi hefyd y defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fewnfudwr rhyngwladol - y rheini sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Nid yw mewnfudwyr dros dro (e.e. gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) wedi'u cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau poblogaeth.

Cyfraddau Ffrwythlondeb Penodol i Oedran (ASFR)

Mae ASFR yn cyfeirio at gyfanswm nifer y genedigaethau fesul 1,000 o fenywod o oedran penodol (cyfrifir ar gyfer menywod 15-45 oed yn unig).

Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb (TFR)

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Ffrwythlondeb Lefel Adnewyddu

Ystyr hyn yw'r lefel o ffrwythlondeb sydd ei hangen i'r boblogaeth adnewyddu'i maint yn yr hirdymor gan ystyried cyfraddau marwolaeth cyson ac absenoldeb ymfudo.

Cyfraddau Marwolaeth Penodol i Oedran (ASMR)

Mae ASMR yn cyfeirio at gyfanswm nifer y marwolaethau fesul 1,000 o bobl o oedran penodol.

Disgwyliad oes adeg geni

Y 'disgwyliad oes' yw'r hyd oes ar gyfartaledd y byddai pobl o oedran penodol yn ei fyw pe byddent yn wynebu'r gyfradd farwolaeth ar gyfartaledd sydd wedi'i chofnodi ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Ymfudo Mewnol

Mae mewnfudo mewnol (neu o fewn y DU) yn cyfeirio at bobl yn symud o fewn y DU, er enghraifft o un awdurdod lleol i'r llall. Mae pob Awdurdod Iechyd yn cadw cofrestr o

gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'u meddygon teulu, sef y System Data Cofrestr Cleifion (PRDS). Mae cyfuno pob cofrestr cleifion yng Nghymru a Lloegr a'u cymharu â chofrestr y flwyddyn flaenorol yn nodi pobl sydd wedi newid eu cod post.

Ymfudo Rhyngwladol

Mae Ymfudo Rhyngwladol yn cyfeirio at bobl sy'n symud i wledydd y tu allan i'r DU, neu bobl sy'n symud i'r DU. Defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fewnfudwr rhyngwladol - sef y rheini sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Amcangyfrifir symudiadau ymfudo rhyngwladol drwy gyfuno data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), data'r Swyddfa Gartref ar geiswyr lloches a throsglwyddiadau ymwelwyr, ynghyd ag amcangyfrifon ymfudo rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Chymru o Arolwg o Lafurlu Iwerddon.

Oedran Gweithio ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn ar gyfer poblogaeth oedran gweithio ac oedran pensiwn yn seiliedig ar oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed i ddynion a 60 oed i fenywod, i 65 oed i ddynion a menywod. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i ddynion a menywod.

Daearyddiaeth a Ffiniau

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol, ac maent yn seiliedig ar y ffiniau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth canol 2006. Gallai data hanesyddol a ddefnyddiwyd i lunio rhagdybiaethau fod yn seiliedig ar ffiniau ychydig yn wahanol.

Amllder

Mae'r rhan fwyaf o'r data sylfaenol ar gael yn flynyddol. Rhagwelir y bydd amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn cael eu cyhoeddi bob dwy flynedd (yn yr un modd â'r amcanestyniadau cenedlaethol)

Diwygiadau

Nid oes bwriad i ddiwygio amcanestyniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer 2006. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y boblogaeth sylfaenol (amcangyfrifon canol 2006) yn cael eu diwygio yn y dyfodol. Bydd hyn yn effeithio ar gyfraddau ffrwythlondeb a marwolaeth hanesyddol.

Siartiau

Noder nad yw'r siartiau a ddefnyddir yn y ddogfen hon bob amser yn dechrau ar 0, ac maent yn seiliedig ar raddfeydd gwahanol.

Symbolau

Mae'r symbol canlynol wedi cael ei ddefnyddio drwy'r cyhoeddiad cyfan:
- nid sero yn union yw'r eitem data, ond mae wedi'i dalgrynnu i sero.

Gwybodaeth bellach

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol

Mae adroddiad awdurdodau lleol, taflen gyfarwyddyd, cwestiynau cyffredin a gwybodaeth bellach ar yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol (sail-2006) ar gael yn:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar StatsCymru:

(Population and Migration / Population / Projections / 2006-based local authority)

www.statswales.cymru.gov.uk

Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru

Ceir dadansoddiad o amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol Crymu (sail-2006) ym Mhennod 4 yr adroddaid demograffeg 'Poblogaeth Cymru, 2008':

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar StatsCymru:

(Population and Migration / Population / Projections / 2006-based national)

www.statswales.cymru.gov.uk

Ceir gwybodaeth fanwl bellach ar wefan GAD (Saesneg yn unig):

www.gad.gov.uk

Data am y Boblogaeth ac Ymfudo

Ceir gwybodaeth ar sut i gael mynediad at ddata am y boblogaeth ac ymfudo ar dudalen thema Poblogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Manylion Cyswllt

Am ymholiadau ar yr amcanestyniadau, neu ymholiadau cyffredinol ar ddata demograffeg, cysylltwch â:

Ystadegau Demograffi, Treftadaeth a Chydraddoldeb

Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 029 2082 5058